



Llesiant Cymru

2018-19



Rhagair gan y Prif Ystadegydd

Mae'r adroddiad hwn, trydydd adroddiad blynyddol Llesiant Cymru, yn rhoi cipolwg o'n gwlad a'r cynnydd rydym yn ei wneud yn erbyn y saith nod llesiant.

Fel y cyhoeddais y llynedd ¹, rydym wedi defnyddio ffordd wahanol o lunio adroddiad eleni. Rydym wedi canolbwyntio ar adroddiad byrrach sy'n fwy o ddiweddiariad o'r hyn rydym wedi'i ddysgu dros y flwyddyn ddiwethaf. Y bwriad fydd darparu'r dadansoddiad manylach a welwyd gennym mewn adroddiadau blaenorol bob 4-5 mlynedd, pan fydd hi'n haws i ni ystyried cynnydd tymor hir.

Ar yr un pryd, rydym wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno adroddiad mwy deniadol. Dylai'r adroddiad ddal i ddarparu darlun pwysig o gyflwr y genedl yn ôl y data diweddaraf ar lesiant, ac rwyf yn croesawu unrhyw adborth ar y ffordd hon o weithio.

Er ein bod ni wedi cwtdogi'r adroddiad, rydym wedi cynnwys data newydd mewn rhai meysydd hefyd, fel ehangu ein dadansoddiad o ansawdd gwaith; mynediad at fannau gwyrdd; dadansoddi cyfryngau cymdeithasol a seiberfwlio ymhlith pobl ifanc; a data newydd o'r arolwg cyflwr tai a'r arolygon deiet a maeth cenedlaethol.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at negeseuon pwysig sy'n deillio o ddata yn y flwyddyn ddiwethaf, negeseuon y dylai pobl sy'n gwneud penderfyniadau a pholisïau eu hystyried. Er enghraifft:

Mae disgwyliad oes iach yn dal i fod yr un fath. Mae ein deiet yn dal i gynnwys lefelau isel o ffrwythau a llysiau, a gormod o halen, siwgr a chig coch.

Rydym wedi gweld gwelliannau eleni yn lefelau'r prif lygryddion yn yr aer, y capasiti ynni adnewyddadwy a'r allyriadau carbon.

Mae perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru yn parhau i fod yn gryf yn nhermau hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrydd yn gyfystyr ag ansawdd gwaith da i bawb ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu.

Am y tro cyntaf mewn degawd, roedd data arolygon yn dangos bod cyflwr tai wedi gwella'n sylweddol yng Nghymru, sy'n golygu bod llai o bobl yn byw mewn tai peryglus neu dai nad ydynt yn effeithlon o ran ynni.

Mae gwahaniaethau o hyd rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig, er enghraifft o ran marwolaethau y gellid eu hosgoi a chyrhaeddiad addysgol. Ac mae cyfraddau tlodi cymharol yn aros ar lefel debyg eleni.

Mae'r ffactorau sy'n sail i lesiant unigolyn yn gymhleth ac yn gysylltiedig â'i gilydd. Ymhellach, mae adroddiad Llesiant Cymru yn crynhoi ystod eang o bynciau, tra bo dadansoddiad manylach o'r rhan fwyaf o'r materion yma, gan edrych ar wahaniaethau ar draws amser, daearyddiaeth a grwpiau poblogaeth gwahanol ar gael yn y datganiadau ystadegol a gynhyrchwyd gennym ni, gan y SYG a gan gynhyrchwyr ystadegol eraill. Rydym wedi darparu dolenni i feysydd darllen pellach a fydd yn eich helpu i ddeall y pynciau hyn yn fanylach.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ochr yn ochr â gwaith ar ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i ofyn am safbwyntiau ar unrhyw newidiadau i'r set o ddangosyddion cenedlaethol. Roedd yn galonogol bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn dal i fod yn berthnasol ac nad oedd galw aruthrol i newid y set o ddangosyddion yn sylweddol. O ganlyniad i'r gwaith hwn, byddwn yn:

- diwygio'r dangosyddion cenedlaethol sy'n ymwneud ag ansawdd gwaith, gan ystyried argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg
- ymchwilio i gwestiwn newydd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru ar "ddinasyddion gweithredol byd-eang" i gymryd lle'r dangosydd ar bartneriaethau Nodau Datblygu Cynaliadwy na ellir ei fesur ar hyn o bryd
- helaethu'r dangosydd ar y gwahaniaeth cyflog i grwpiau poblogaeth eraill (e.e. ethnigrwydd)
- gyrru gwaith ar ddangosyddion eraill yn ei flaen yn gyfochr â gwaith cyfredol ar gerrig milltir cenedlaethol, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid perthnasol.



Glyn Jones
Y Prif Ystadegydd

¹ <https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2018/11/27/diweddiariad-gan-y-prif-ystadegydd-mesur-llesiant-cymru-a-chynlluniau-adrodd-y-dyfodol/>

Mae'r adroddiad yn dangos y canlynol

Ar ôl cynnydd parhaus dros nifer o flynyddoedd, nid yw disgwyliad oes wedi newid llawer yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rydym yn treulio rhan fwyaf o'n bywydau mewn iechyd da, ond mae'r amser hwnnw yn llai ar gyfer y rheini sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ychydig o newid a fu yn y flwyddyn ddiwethaf mewn ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw. Dengys y data diweddaraf bod ein deiet yn dal i gynnwys lefelau isel o ffrwythau a llysiau, a gormod o halen, siwgr a chig coch (er gwelliannau dros yr ychydig flynyddoedd diweddaraf).

Mae canran y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel wedi cynyddu ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn gostyngiad graddol dros y 7 blynedd blaenorol.

Mae cyflwr tai wedi gwella dros y 10 mlynedd ddiwethaf, gan leihau'r risg bosibl i iechyd y meddianwyr, a gwelliant ar draws pob deiliadaeth.

Mae marchnad lafur Cymru yn parhau i berfformio'n gryf, gyda'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn fach yn nhermau hanesyddol. Er hyn, mae'r canran o bobl mewn swyddi â chyflog isel i'w weld yn cynyddu.

Mae cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur wedi tyfu ers y dirwasgiad, er y bu cwymp bach yn y flwyddyn diweddaraf ar gyfer y rhai 16-18 oed.

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu. Fodd bynnag, yn 7.3 y cant, mae'n parhau i fod gyda'r isaf erioed. Mae'r data newydd ar y bwlch cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd yn dangos, ar gyfartaledd, bod gweithwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ennill 7.5 y cant yn llai fesul awr na gweithwyr gwyn Prydeinig.

Rydym yn dal i weld bwlch sylweddol o ran canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl, ond mae'r bwlch cyflogaeth wedi aros yn sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae lefelau cymwysterau ymysg y boblogaeth yn parhau i gynyddu, ond mae bylchau mawr yn dal i fodoli o ran cyrhaeddiad addysgol ar gyfer grwpiau gwahanol y boblogaeth.

Nid yw tlodi incwm cymharol wedi newid yn sylweddol ers sawl blwyddyn, er y gwelir rhai newidiadau ar gyfer rhai grwpiau. Mae tlodi incwm cymharol yn parhau i fod ar ei uchaf ymysg plant. Mae llai o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd o gymharu â 10 mlynedd yn ôl gan fod ein cartrefi wedi dod yn fwy effeithlon o ran ynni.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae rhywfaint o gynnydd wedi bod mewn cydlyniant cymunedol ond gostyngiad bychan o ran teimlo'n ddiogel. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw hyn yn ddechrau ar duedd newydd.

Mae nifer yr achosion o droseddau casineb yn ymwneud â hil sy'n cael eu cofnodi wedi bod yn cynyddu.

Mae lefelau cyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon ar gyfer oedolion a phlant wedi aros yr un fath yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r data arolwg diwethaf yn awgrymu bod cynnydd wedi bod yn y ganran o bobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl. Mae'r defnydd o'r iaith yn parhau'n gyson.


Mae gostyngiad mawr wedi bod mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y flwyddyn ddiwethaf, a thros y tymor hir, mae allyriadau wedi gostwng mwy na chwarter ers y 1990au.

Mae llygredd aer yn parhau i fod yn fater iechyd sylweddol, er bod gwelliannau wedi eu nodi i lefelau tri o'r prif lygrwyr aer dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae capasiti gosodiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi codi yn y degawd diwethaf, ac mae bron i hanner o'r trydan a dreulir yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Er ei bod ychydig flynyddoedd o oed, mae ein hól troed ecolegol yn awgrymu bod ein prif adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynt nag y gellir eu hailgyflenwi. Mae gwelliannau wedi bod i boblogaethau rhai rhywogaethau, ond mae'r asesiad cynhwysfawr diwethaf o adnoddau naturiol Cymru yn dangos bod amrywiaeth biolegol yn dirywio'n gyffredinol.

Cynnwys

Cymru Lewyrchus	5
Cymru Gydnerth	21
Cymru Iachach	36
Cymru sy'n fwy Cyfartal	52
Cymru o Gymunedau Cydlynus	74
Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu	86
Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang	96
Y Cefndir	113
Atodiad A – Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru	117
Atodiad B – Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy	120



Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 nod Llesiant. Mae'n ystyried y sefyllfa bresennol a'r cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy gyfeirio at 46 o ddangosyddion cenedlaethol Cymru ac at rywfaint o gyd-destun ychwanegol pan fo'n briodol. Nid yw'n adroddiad am berfformiad unrhyw sefydliad, ond yn hytrach am y newidiadau rydym yn eu gweld gyda'n gilydd ar draws Cymru.

Sefydlwyd y saith nod Llesiant er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac maent wedi'u cynnwys yn y gyfraith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyswllt

Glyn Jones

Prif Ystadegydd

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6691 E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru

Cymru Lewyrchus

Awduron: Stephanie Howarth a Jonathan Price



Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael swyddi da.

Cymru Lewyrchus


Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Mae perfformiad economaidd Cymru yn parhau i fod yn isel o ran GVA (gwerth ychwanegol gros) a GDHI (incwm gwario gros aelwydydd), ond nid yw'n llawer gwahanol i fannau eraill y DU â nodweddion tebyg.
- Mae data diweddar yn awgrymu gwelliannau bach i gynhyrchiant cymharol Cymru, sydd efallai yn gwrthdroi tuedd ar i lawr cyn y dirwasgiad.
- Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae Cymru wedi gweld cwmp bach yn y gyfradd cyflogaeth a chynnydd cyfatebol mewn anweithgarwch economaidd.



Bu gostyngiad bach yn y gyfradd o bobl ifanc 16-18 oed nad oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i 89.7 y cant yn 2018, ac arhosodd y gyfradd ar gyfer y rhai 19-24 oed yn sefydlog ar 83.9 y cant.

- Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod swyddi yng Nghymru, mewn rhai ffyrdd, yn well na swyddi mewn mannau eraill y DU. Fodd bynnag, gan weithwyr yng Nghymru y mae'r lefelau uchaf o straen ym Mhrydain.
- Cynyddodd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ychydig yn 2018, i fyny i 7.3 y cant.
- Mae'r data diweddaraf yn awgrymu, at ei gilydd, nad yw cyfraddau tlodi incwm cymharol cyffredinol yng Nghymru wedi newid. Bu cynnydd bach mewn cyfraddau tlodi plant, i'r gwrthwyneb i'r gostyngiad bach mewn tlodi pensiynwyr.



Gan ddefnyddio dangosydd cenedlaethol y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, nid oedd llawer o newid i gyrhaeddiad mewn ysgolion uwchradd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniadau ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig yn parhau i fod yn waeth na'r canlyniadau ar gyfer plant mewn grŵpiau eraill.

- Mae data o 2018 yn dangos bod Cymru yn parhau i fod â'r gyfran isaf o gofrestriadau cerbydau allyriadau isel iawn yn y DU.

Cymru Lewyrchus

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r nod yn y tymor hir?

- Yn yr un modd ag yn y DU yn ei chyfanrwydd, mae twf yn yr economi ac incymau real wedi bod yn araf ers y dirwasgiad yn 2008, gan ddangos twf cymharol wan mewn cynhyrchiant. Yn y tymor hir, ers 1999, at ei gilydd mae Cymru wedi cadw i fyny â'r DU, ond mae ei pherfformiad yn parhau i fod yn isel o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU.



Mae incymau aelwyd cyfartalog yng Nghymru gryn dipyn yn agosach i gyfartaledd y DU na Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen, ond mae gwahaniaethau, gan ddibynnu ar y mesur a ddefnyddir.

- Mae marchnad lafur Cymru yn parhau i berfformio'n gryf, gyda'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU yn gul yn nhermau hanesyddol. Mae'r rhan y mae pobl ifanc yn ei chwarae mewn addysg a'r farchnad lafur wedi parhau i dyfu ers y dirwasgiad.
- Mae mwy o bobl yng Nghymru mewn swyddi â chyflog isel ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn cynyddu. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth mewn perthynas â swyddi o ansawdd yn awgrymu bod y sefyllfa yng Nghymru yn un gymysg.
- Nid oes llawer o newid wedi bod mewn lefelau tlodi incwm cymharol yng Nghymru ers rhai blynyddoedd, er y cafwyd newidiadau ar gyfer rhai grŵpiau. Bu gostyngiad cyffredinol yn lefelau tlodi cymharol plant yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ond bu cynnydd mewn tlodi cymharol pensïynwyr – mae'r ddau ffigur yn dal ymhell islaw'r cyfraddau ar ddiwedd y 1990au.



Mae proffil cymwysterau'r boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru wedi bod yn gwella gydag amser. Mae cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, er bod canlyniadau plant o gefndiroedd difreintiedig yn parhau i fod yn waeth.


- Mae'r rhyngweithio rhwng twf economaidd ac economi carbon isel, arloesol yn gymhleth ac yn creu heriau, ond mae arwyddion cadarnhaol hefyd. Mae teithio'n cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon, ond nid oes dystiolaeth ein bod yn cefnu ar geir fel ein prif ddull teithio.

Cymru Lewyrchus

Yn yr un modd ag yn y DU yn ei chyfanrwydd, mae'r twf yn yr economi ac mewn incymau real wedi bod yn araf ers y dirwasgiad yn 2008, gan ddangos twf cymharol wan mewn cynhyrchiant. Yn y tymor hir, ers 1999, at ei gilydd mae Cymru wedi cadw i fyny â'r DU, ond mae ei pherfformiad yn parhau i fod yn isel o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU.

- Mae GVA y pen yn cynrychioli gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal. Dyma ffynhonnell yr incymau real y mae pobl yn eu hennill a'r sail ar gyfer codi trethi i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.
- Er bod GVA y pen yng Nghymru wedi tyfu ar yr un cyflymder â gweddill y DU at ei gilydd ers 1999, mae'n parhau i fod yn is na phob gwlad a rhanbarth arall yn y DU.
- O edrych ar gynnydd yn ddiweddarach, cynyddodd GVA y pen yng Nghymru ychydig yn arafach yn 2017 nag yn y DU yn ei chhyfanrwydd. Cynyddodd 2.7 y cant (heb gynnwys chwyddiant), sef yr wythfed twf cyflymaf o 12 ardal y DU.
- Mae GVA Cymru yn adlewyrchu ei lefelau cynhyrchiant cymharol isel. Mae'r GVA fesul awr o waith yn parhau i fod yn is yng Nghymru nag yn ymron bobman arall yn y DU. Yn 2017 roedd yn 84.2 y cant o'r ffigur ar gyfer y DU.
- Mae data diweddar yn awgrymu y bu gwelliannau bach i gynhyrchiant cymharol, sydd efallai yn gwrthdroi tuedd ar i lawr cyn y dirwasgiad.

1.1 Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen, 1999 i 2017




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Regional economic activity by gross value added (balanced), UK: 1998 to 2017: y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Lewyrchus

Mae incymau aelwyd yng Nghymru gryn dipyn yn agosach i gyfartaledd y DU nag y mae GVA y pen, ond mae gwahaniaethau, gan ddibynnu ar y mesur a ddefnyddir.

- Mae incwm aelwyd yn ddangosydd gwell ar gyfer ffyniant a llesiant materol pobl na GVA.
- Mae'r dangosydd cenedlaethol yn defnyddio mesur gwahanol, incwm gwario gros aelwydydd. Os defnyddir y mesur hwn, mae Cymru bellach yn agos at 80 y cant o'r ffigur ar gyfer y DU, ar ôl gostwng o 88 y cant pan oedd ar ei uchaf yn 2004. Yn rhannol mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i gynnydd mawr mewn incymau aelwyd yn Llundain yn helpu i godi'r cyfartaledd ar gyfer y DU.
- Er bod gan Gymru y GDHI y pen isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU, nid yw'n wahanol iawn i ardaloedd yn y DU sydd â nodweddion tebyg.
- Mae perfformiad Cymru yn well os defnyddir dangosydd ar gyfer incwm aelwyd canolrifol (ar ôl tynnu costau tai). Os defnyddir y dangosydd hwn, y mae'n debyg ei fod yn adlewyrchu amgylchiadau aelwyd arferol yn well, mae incymau cyfartalog yng Nghymru at ei gilydd wedi bod yn llawer uwch na 90 y cant o'r ffigur ar gyfer y DU. Fodd bynnag, mae Cymru yn parhau i fod yn agos at waelod y 'tabl cynghrair' o wledydd a rhanbarthau'r DU.

1.2 Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) y pen yng Nghymru, 1999 i 2017




Ffynhonnell: Incwm Gwario Gros Aelwydydd fesul rhanbarth, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Lewyrchus

Mae marchnad lafur Cymru yn parhau i berfformio'n gryf, gyda'r bwch rhwng Cymru a'r DU yn gul yn nhermau hanesyddol.


- Yn ystod y flwyddyn diwethaf cynyddodd y gyfradd cyflogaeth i'r lefel uchaf ers dechrau cofnodi, gan ostwng ychydig yn dilyn hyn. Mae'r bwch rhwng Cymru a'r DU yn agos mewn cyd-destun hanesyddol.
- Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, cwmpodd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru 0.4 pwynt canran, a thyfodd y gyfradd anweithgarwch economaidd 0.3 pwynt canran.
- Mae'r gyfradd ddiweithdra'n parhau i fod ar y lefelau isaf erioed, gan ddilyn cyfradd y DU at ei gilydd.
- Golyga'r gwelliannau sylweddol diweddar yn y farchnad lafur Gymraeg bod cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch yn gymaradwy â'r DU am fwyafrif y flwyddyn hon.

1.3 Cyfradd cyflogaeth pobl 16-64 oed, 1999 - 2019



* Nid yw'r echelinau yn dechrau ar sero

1.4 Cyfradd anweithgarwch economaidd pobl 16-64 oed, 1999 - 2019



* Nid yw'r echelinau yn dechrau ar sero


Ffynhonnell: Regional labour market statistics in the UK: September 2019: y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Lewyrchus

Mae'r rhan y mae pobl ifanc yn ei chwarae mewn addysg a'r farchnad lafur wedi parhau i dyfu ers y dirwasgiad.

- Bu cynnydd yn ddiweddar yn nifer y bobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y grŵp 16-18 oed a'r grŵp 19-24 oed fel ei gilydd, er cwmp bach i'r rhai 16-18 oed yn y flwyddyn ddiwethaf.
- O ran y rhai 16-18 oed, mae'r ganran sydd mewn addysg, hyfforddiant neu hyfforddiant wedi bod yn amrywio o gwmpas tua 90 y cant yn y blynyddoedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae'r ffigur wedi bod yn cynyddu'n raddol ers y dirwasgiad, er y bu cwmp bach i 89.7 y cant yn 2018.
- Fe deimlodd y grŵp 19-24 oed effeithiau'r dirwasgiad yn waeth. Ers hynny, mae eu cyfran mewn addysg neu yn y farchnad lafur wedi bod yn cynyddu at ei gilydd, er ei fod yn ddigyfnewid yn y flwyddyn ddiwethaf. 83.9 y cant yw'r gyfradd ar hyn o bryd, sef tua 6 pwynt canran yn uwch nag yn 2012.
- Yn 16-18 oed, mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn 2018, am y tro cyntaf, roedd cyfraddau cyfranogiad menywod hefyd yn uwch na rhai'r dynion yn y grŵp oedran 19-24 oed.

1.5 Canran y bobl ifanc oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, 2004 - 2018



* Nid yw'r echelin yn dechrau ar sero


Ffynhonnell: Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur, Llywodraeth Cymru

Cymru Lewyrchus

Mae mwy o bobl yng Nghymru mewn swyddi â chyflog isel ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn cynyddu.

- Mae'r cyflog byw yn cael ei gyfrifo gan y Living Wage Foundation, a'r nod yw adlewyrchu costau byw. Roedd 26 y cant o weithwyr yng Nghymru yn ennill llai na'r cyflog byw. Mae'r gyfran hon wedi bod yn cynyddu'n raddol o 23.5 y cant yn 2012 pan gafodd y cyflog byw ei gyflwyno.
- Mae gweithwyr rhan-amser yn llawer mwy tebygol o ennill llai na'r cyflog byw o'u cymharu â gweithwyr amser llawn (48 y cant o'i gymharu â 17 y cant).
- Mae rhyw 30 y cant o weithwyr yn rhan o drefniadau cydfargeinio, lle mae tâl ac amodau'n cael eu trafod rhwng cyflogwr ac undeb llafur. Mae'r gyfran hon wedi bod yn gostwng, ond mae'n parhau i fod yn uwch yng Nghymru nag mewn llawer o fannau yn Lloegr.
- Yn ystod y tymor hir mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi bod yn cau, ond mae'r data diweddaraf yn awgrymu iddo gynyddu ychydig yng Nghymru yn 2018 – i fyny o 6.4 y cant yn 2017 i 7.3 y cant flwyddyn yn ddiweddarach. Nid yw'r bylchau hyn yn ystyried gwahaniaethau mewn lefelau addysg a phrofiad, sy'n amrywio rhwng y rhywiau ac yn cael effaith ar gyflogau.

1.6 Y gwahaniaeth canrannol mewn cyflogau amser llawn canolrifol rhwng dynion a menywod, 1999–2018



Mae gwahaniaeth mewn cyflog sy'n uwch na sero yn golygu bod dynion yn ennill mwy na menywod


Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion: y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Lewyrchus

Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â swyddi o ansawdd da yn awgrymu bod y sefyllfa yng Nghymru yn un gymysg.

- Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod swyddi yng Nghymru, mewn rhai ffyrdd, yn well na swyddi mewn mannau eraill yn y DU, gan gynnwys y berthynas â rheolwyr, cyfrannu at o broses o wneud penderfyniadau sefydliadol a lefelau uchel o ddisgresiwn mewn perthynas â thasgau. Fodd bynnag, awgrymodd yr un arolwg mai gan weithwyr yng Nghymru y mae'r lefelau uchaf o straen ym Mhrydain.
- Y dangosydd cenedlaethol ar gyfer ansawdd swyddi yw canran y bobl sydd mewn gwaith sydd â chontract parhaol (neu gontract dros dro os nad ydynt yn chwilio am waith parhaol) ac sy'n ennill mwy na dau draean o gyflog canolrifol y DU.
- Yn 2018, roedd 67.5 o'r bobl oedd mewn gwaith yn cyfateb i'r diffiniad hwn. Dim ond newid bach sydd i'r ffigur hwn bob blwyddyn, ac nid oes unrhyw duedd glir.
- At ei gilydd nid yw'r ganran o bobl sy'n fodlon ar eu swydd wedi newid; roedd yn 82 y cant yn 2017–18. Mae bodlonrwydd â swydd yn tueddu i gynyddu gydag oedran.

1.7 Canran y bobl sy'n gweithio ac sy'n ennill yn fwy na 2/3 o gyflog cyfartalog canolrifol y DU




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion a'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth

Cymru Lewyrchus

Bu gostyngiadau yn y cyfraddau tlodi incwm cymharol ar gyfer plant ac mae tlodi ymlith pensiynwyr wedi codi yn y 5 mlynedd ddiwethaf, ond yn gyffredinol mae'r cyfraddau wedi aros yn sefydlog ac maent yn is na chyfraddau'r 1990au.

- Mae plant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu cynydd bach yn y gyfran o blant oedd mewn tlodi incwm cymharol, i fyny i 29 y cant yn 2015–2018. Gostyngodd y gyfran o bensiynwyr sydd mewn tlodi cymharol ychydig i 19 y cant, ar ôl cynyddu nifer o weithiau yn y 2010au cynnar.
- Roedd tua dwy ran o dair o'r bobl o dan oedran pensiwn a oedd mewn tlodi cymharol yn byw mewn aelwydydd lle roedd rhywun mewn gwaith.
- Mae amddifadedd materol yn golygu methu gallu fforddio nwyddau a gwasanaethau arferol fel cadw'r tŷ yn gynnes neu gynilo arian yn rheolaidd. Mae cyfran y bobl sydd mewn amddifadedd materol yng Nghymru wedi bod yn amrywio rhwng 14 ac 16 y cant yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae data newydd ar dlodi tanwydd yn awgrymu bod 12 y cant o aelwydydd yng Nghymru yn dlawd o ran tanwydd. Y tro diwethaf i'r data hyn gael eu casglu oedd yn 2008 pan oedd 26 y cant yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae'n debygol bod y gostyngiad sylweddol hwn o ganlyniad i gyfuniad o incymau uwch ac effeithlonrwydd ynni gwell.

1.8 Canran yr holl bobl, plant, pensiynwyr ac oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, 1994 i 2018



Ffynhonnell 1: Tlodi: StatsCymru


Ffynhonnell 2: Tablau cartrefi islaw'r incwm cyfartalog ar gyfer Cymru: Llywodraeth Cymru

Cymru Lewyrchus

Mae proffil cymwysterau pobl Cymru wedi bod yn gwella gydag amser.

- Sgiliau a chymwysterau yw'r ffactor sy'n dylanwadu fwyaf ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn cael gwaith, ac ar lefel eu hincwm.
- Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyfran y bobl sydd â chymwysterau uwch yn parhau i godi. Yn 2018, roedd 37.8 y cant o oedolion oedran gweithio wedi derbyn addysg hyd at addysg uwch o leiaf (sef NQF lefel 4), i fyny ychydig o 37.5 y cant y flwyddyn flaenorol.
- Yn ystod y degawd diwethaf, mae cyfran y bobl oedran gweithio nad oes ganddynt gymwysterau wedi bod yn gostwng, ac ar hyn o bryd y ffigur yw 8.4 y cant.
- Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau nag oedolion iau.
- Mae menywod yn fwy tebygol o fod â chymwysterau lefel 4 neu'n uwch ym mhob grŵp oedran.

1.9 Canran y boblogaeth oedran gweithio (18 - 64 oed) yng Nghymru sydd heb gymwysterau, neu sydd â chymhwyster lefel 4 neu uwch, 2008 i 2018




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Lewyrchus

Mae cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, er bod canlyniadau ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig yn parhau i fod yn waeth.

- O ran mathemateg a Saesneg (iaith, llythrennedd a chyfathrebu) roedd 6 o bob 10 o blant 4 oed ar y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad ar gyfer eu hoedran, neu'n uwch na hynny. Roedd tua 9 o bob 10 o blant o fewn un cam i'w datblygiad disgwyliedig.
- Mae'r darlun yn wahanol ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, lle'r oedd tua 1 o bob 3 o blant wedi cyrraedd cam oedd yn gyson â'u datblygiad. Y rheswm am hyn yw bod plant o deuluoedd di-Gymraeg yn dechrau mewn ysgolion Cymraeg. I roi hyn mewn cyd-destun, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn 7 oed, mae oddeutu 82 y cant yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig.
- Y 'sgôr naw pwynt wedi'i chapio' yw'r dangosydd cenedlaethol ar gyfer perfformiad ysgolion uwchradd. Mae'n canolbwyntio ar naw canlyniad gorau disgyblion Blwyddyn 11, gan gynnwys rhai gofynion sy'n benodol i bwnc.
- Nid oedd llawer o newid i'r sgôr naw pwynt wedi'i chapio yn 2017–18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 349.5 o gymharu â 350.9. Mae hyn yn cyfateb i ychydig o dan naw TGAU gradd C.
- Roedd y sgôr ar gyfer disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim 79.1 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer disgyblion eraill. Mae hyn yn cyfateb i ddwy TGAU gradd C yn llai i bob disgybl ar gyfartaledd.

1.10 Y sgôr naw pwynt wedi'i chapio, yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim




Ffynhonnell: Canlyniadau Arholiadau, Llywodraeth Cymru

Cymru Lewyrchus

Mae'r rhyngweithio rhwng twf economaidd ac economi carbon isel, arloesol yn gymhleth ac yn creu heriau, ond mae arwyddion cadarnhaol hefyd.

- Mae gweithio ar syniadau newydd a meddwl am ffyrdd gwell o wneud pethau yn ffordd bwysig o wella cynhyrchiant ac, o bosibl, lleihau allyriadau carbon.
- Mae data ar arloesi yn dangos yn 2014–16 bod 46 y cant o fusnesau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau arloesi. Bu gostyngiad mewn gweithgareddau arloesi ym mhob ardal yn y DU ond un, gyda'r ffigur ar gyfer Cymru yn gostwng o 51 y cant yn y cyfnod blaenorol.
- Ar y cyfan, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng 25 y cant ers blwyddyn sylfaen 1990. Mae busnesau'n cyfrannu ychydig dros un rhan o bump o allyriadau Cymru, gyda chyfanswm yr allyriadau yn y sector hwn yn gostwng yn sylweddol ers 1990 (35 y cant). Bu'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn yn y 2000au cynnar gyda gostyngiadau llai o lawer ers hynny.

1.11 Allyriadau nwyon tŷ gwydr, 1990 i 2017




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Restr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Cymru Lewyrchus

Mae teithio'n cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon, ond nid oes tystiolaeth ein bod yn cefnu ar geir fel ein prif ddull teithio.

- Er bod yr adferiad ar ôl y dirwasgiad wedi bod yn araf ac yn herciog, mae'r duedd hirdymor i ddefnyddio mwy o drafnidiaeth yng Nghymru wedi ailddechrau, gan effeithio ar bob dull ac eithrio bysiau (lle mae'r defnydd wedi lleihau).
- Megis yn y rhan fwyaf o rannau eraill y DU y tu allan i Lundain, cludiant preifat ar y ffordd yw'r prif ddull o hyd, ac mae'n cyfrif am y mwyafrif llethol o deithiau cymudo yng Nghymru.
- Yn 2017, roedd 81 y cant o gymudwyr yng Nghymru yn defnyddio car fel eu dull arferol o deithio. Roedd hyn yn ostyngiad bach ers yr uchafswm o 84 y cant yn 2013.
- Er bod cynnydd yn nifer y cerbydau allyriadau isel iawn sy'n cael eu cofrestru, mae hyn yn cychwyn o sylfaen isel ac, fel cyfran o'r holl gerbydau sy'n cael eu cofrestru, y ffigur ar gyfer Cymru yw'r isaf yn unrhyw un o wledydd neu ranbarthau'r DU
- Mae cyfran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio i'r gwaith, yn teithio ar drên ac yn defnyddio bysiau wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y 15 mlynedd diwethaf.
- Gydag amser, gallai lleihau'r defnydd o geir, amseroedd cymudo sefydlog a defnyddio cerbydau carbon isel fwyfwy gyfrannu at leihau allyriadau.

1.12 Dull arferol trigolion Cymru o deithio i'r gwaith, Hyd-Rhag 2017



Ffynhonnell: Transport Statistics Great Britain 2018: yr Adran Drafnidiaeth

Cymru Lewyrchus

Darllen pellach:

Roedd adroddiad llawn, [Llesiant Cymru 2018](#) yn cynnwys dadansoddiad pellach o'r canlynol:

- Cyfoeth a pherchnogaeth tai
- Cymariaethau GVA rhyngwladol
- Arloesi
- Gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn y farchnad lafur
- Math o alwedigaeth
- Cymariaethau perfformiad addysg rhyngwladol
- Cyrhaeddiad yn ystod Cyfnod Allweddol 2
- Cyrhaeddiad ysgol uwchradd
- Gwaith ac iechyd
- Tlodi mewn gwaith
- Amseroedd cymudo

Mae'r adroddiad yma yn crybwyll ystod eang o bynciau, ac o ganlyniad, dim ond mesurau cynnydd lefel uchel y mae modd eu crybwyll. Mae dadansoddiad mwy manwl ar sawl un o'r pynciau yma ar gael drwy'r cyfrwng o ddatganiadau ystadegol a gyhoeddir gan [Lywodraeth Cymru](#), y [SYG](#) a chynhyrchwyr ystadegau eraill.

Dolenni defnyddiol i gael rhagor o wybodaeth:

[Ystadegau Economaidd Allweddol](#), sy'n rhoi diweddariad misol ynglŷn â'r farchnad lafur, yr economi, allforion ac enillion yng Nghymru.

[Dangosfwrdd Economi Cymru mewn Rhifau](#), sy'n dangos tueddiadau yng nghanlyniadau economaidd allweddol Cymru, o'i chymharu â'r DU.

[Ystadegau Trafnidiaeth Prydain Fawr](#), compendiwm blynyddol o ystadegau trafnidiaeth, gan gynnwys data ar gyfer Cymru mewn nifer o bynciau.

Cymru Lewyrchus

Perfformiad economaidd

Perfformiad Economeg

Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol, Cynhyrchiant Rhanbarthol

Incwm aelwyd

Incwm Gwario Gros Aelwydydd fesul rhanbarth

Arolwg o Adnoddau Teuluoedd

Y farchnad lafur

Yr Arolwg o'r Llafurlu, Cyfranogi yn y Farchnad Lafur

Tâl

Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) (y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r cyflog byw)

Ystadegau'r Undebau Llafur

Gwaith teg

Arolwg o Sgiliau a Chyflogaeth, dangosydd cenedlaethol yn defnyddio ASHE a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth,

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Tlodi

Cartrefi o dan yr Incwm Cyfartalog

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Arolwg Cyflwr Tai Cymru

Cymwysterau

Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Addysg

Asesiadau Dechreuol

Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

Busnesau

Arolwg Arloesi'r DU

Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol

Teithio

Ystadegau Trafnidiaeth Prydain Fawr

Ystadegau'r Adran Drafnidiaeth am gerbydau ag allyriadau isel iawn

Cymru Gydnerth

Awdur: Stephanie Howarth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd).



Cymru Gydnerth

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?


- Mae'r data diweddaraf yn dangos rhywfaint o welliant yn ansawdd ein cyrff dŵr wyneb, ond mae'r gyfran sy'n bodloni'r safon Ewropeaidd yn dal yn gymharol isel.
- Mae'r asesiad diweddaraf o risg llifogydd yn dangos bod rhai cartrefi yng Nghymru mewn perygl o lifogydd o'r môr, afonydd a dŵr wyneb.
- Mae mannau gwyrdd ar gael yn hawdd i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ac mae barn pobl am ansawdd y mannau hyn yn ymddangos yn sefydlog.
- Bu gwelliant yn lefelau tri o'r prif lygryddion aer. Yn dilyn cynnydd bach yn 2016, bu lleihad yn lefelau cyfartalog nitrogen deuocsid yn 2017.
- Bu gostyngiad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwyrdd yn 2017, i lawr 13 y cant yn gyffredinol. Fe wnaeth israddio'r gweithgarwch yng ngorsaf bŵer Aberddawan gyfrannu'n sylweddol at hyn.
- Roedd y capasiti gosodedig ar gyfer ynni adnewyddadwy 10 y cant yn uwch yn 2017 nag yn y flwyddyn gynt a 62 y cant yn uwch nag yn 2014. Daw mwy na hanner y trydan a ddefnyddir yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy.
- Er bod effeithlonrwydd ynni wedi gwella ar gyfartaledd, dim ond 47 y cant o gartrefi Cymru oedd yn cael eu hystyried yn foddhaol o ran perfformiad ynni.



Bu gostyngiad bach yn y gyfradd ailgylchu yn 2017-18, a hynny am y tro cyntaf. Y rheswm, yn rhannol, yw gwelliant yn ansawdd yr adroddiadau data. Cafodd 62.7 y cant o wastraff trefol ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2017-18.

Cymru Gydnerth

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at y nod yn y tymor hir?



Mae tystiolaeth o rai tueddiadau cadarnhaol o ran mawndiroedd, priddoedd a rhywogaethau yng Nghymru, ond mae'r asesiad cynhwysfawr diweddaraf o adnoddau naturiol yn dangos bod amrywiaeth fiolegol yn dirywio'n gyffredinol.

- Mae ansawdd ein dŵr – yn y môr, mewn afonydd a nentydd, neu yn y ddaear – yn gwella'n gyffredinol.
- Mae ansawdd yr aer wedi gwella'n fawr ers y 1970au, ond mewn rhai ardaloedd mae'r rheolau ynglŷn â lefelau diogel yn dal i gael eu torri'n rheolaidd.
- Mae Cymru ar flaen y gad yn rhyngwladol o ran ailgylchu gwastraff cartrefi, ond rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu.
- Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng o chwarter ers y 1990au, er gwaethaf rhai cyfnodau o gynnydd.
- Mae capasiti safleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf, ond mae'r cynnydd wedi arafu yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae effeithlonrwydd ynni ein cartrefi wedi bod yn gwella, ond mae oedran stoc tai Cymru yn golygu bod heriau.

Cymru Gydnerth

Er gwaethaf y cynnydd ym mhoblogaeth rhai rhywogaethau, mae'r asesiad cynhwysfawr diweddaraf o adnoddau naturiol Cymru yn dangos bod amrywiaeth fiolegol yn dirywio'n gyffredinol.

- Canfu Adroddiad Adnoddau Naturiol 2016 i'r casgliad fod amrywiaeth yn dirywio'n gyffredinol wrth i gynefinoedd a rhywogaethau gael eu colli. Y casgliad oedd nad oes gan unrhyw ecosystem yng Nghymru yr holl nodweddion sy'n angenrheidiol ar gyfer parhau'n gadarn.
- Mae gwaith monitro tymor hir yn dangos bod niferoedd a dosbarthiad bron i draean o rywogaethau adar yng Nghymru yn dirywio'n sylweddol.
- Er bod poblogaethau rhai o adar y coed wedi bod yn gwella (a'u bod yn gwneud yn well yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol), bu dirywiad sylweddol yn yr adar mewn cynefinoedd sy'n cael eu ffermio.
- Mae'r data am rywogaethau yn y Cynllun Monitro Gloynnod Byw yn dangos bod grwpiau arbenigol o löynnod byw wedi sefydlogi'n ddiweddar ar ôl blynyddoedd o ddirywiad.
- Mae'r Rhaglen Genedlaethol i Fonitro Ystlumod yn dangos bod pob un ond un o'r rhywogaethau ystlumod sy'n cael eu monitro yng Nghymru wedi gweld cynnydd yn eu poblogaeth neu wedi parhau'n sefydlog. Mae'r darlun yn debyg i'r hyn sy'n digwydd yn y DU yn gyffredinol.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai amrywiol yw cyflwr cynefinoedd morol ond eu bod yn gallu cynnal poblogaethau iach o sawl rhywogaeth o adar a mamaliad y môr.

Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru bod 33 y cant o bobl yn meddwl bod dirywiad wedi bod yn amrywiaeth y rhywogaethau yng Nghymru.

Roedd 45 y cant yn meddwl y byddai dirywiad yn y dyfodol.




Cymru Gydnerth

Mae tystiolaeth o rai tueddiadau cadarnhaol o ran priddoedd a mawndiroedd yng Nghymru.

- Bydd rheoli priddoedd yn dda yn diogelu'r broses o gynhyrchu bwyd, yn hybu cynefinoedd ac yn lleihau costau trin dŵr.
- Cymysg yw'r darlun o ran priddoedd yng Nghymru. Mae asesiadau diweddar o ansawdd pridd wedi dangos rhywfaint o welliant mewn coetiroedd, ac mae arwyddion bod mawndiroedd yn gwella. Er hynny, mae tir amaethyddol sydd wedi'i wella wedi mynd yn fwy asidig. Mae asideiddio pridd yn golygu y gallai fod yn fwy anodd tyfu cnydau ynddo.
- Mae'r crynodiad carbon yn ein priddoedd yn sefydlog ar y cyfan, ac eithrio mewn tir cynefin lle gwelwyd colli carbon yn ddiweddar.
- Mae'r ardal forol yn enfawr – dyna 41 y cant o diriogaeth Cymru. Mae 35 y cant o ddyfroedd morol Cymru wedi'u dynodi'n ardaloedd morol gwarchodedig. Daeth asesiad a gynhaliwyd yn 2016 i'r casgliad bod y rhwydwaith wedi'i gysylltu'n dda a'i fod yn gwneud cynnydd tuag at reolaeth dda.

Mae cynefinoedd lled-naturiol yn gorchuddio 31 y cant o arwynebedd tir Cymru




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymru Gydnerth

Ar y cyfan, mae ansawdd ein dŵr yn gwella – boed hynny yn y môr, mewn afonydd neu nentydd, neu wedi'i storio yn y ddaear.

- Dŵr yw un o'r adnoddau naturiol yr ydym yn dibynnu arno fwyaf yng Nghymru. Mae'n rhoi 951 tunnell o ddŵr yfed inni bob dydd.
- Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae ansawdd ein hafonydd wedi gwella'n gyffredinol dros y 25 mlynedd diwethaf.
- Mae'r data diweddaraf yn dangos gwelliant yn ansawdd ein cyrff dŵr wyneb, ond mae'r gyfran sy'n cyflawni'r safon yn dal yn gymharol isel. Fe wnaeth tua 40 y cant gyflawni statws da neu uchel ar y cyfan yn 2018, o'i gymharu â 36 y cant y tro diwethaf y cawsant eu dosbarthu, yn 2015.
- Wrth edrych ar y dangosydd cenedlaethol, sy'n cyfuno cyrff dŵr daear a chyrff dŵr wyneb, mae statws 40 y cant o'r holl gyrff dŵr yn dda neu'n well yn 2019. Yn 2015 yr adroddwyd ddiwethaf am ansawdd cyrff dŵr daear, ac yn 2021 yr adroddir arnynt nesaf.
- Mae ansawdd dŵr ymdrochi yn cael ei fonitro mewn 104 o safleoedd o gwmpas arfordir Cymru. Yn 2018, roedd pob un o'r safleoedd hyn yn bodloni'r safonau ansawdd Ewropeaidd, sy'n well na 2017 pan fethodd un safle. Fodd bynnag, bu gostyngiad bach yn nifer y safleoedd a fodlonodd y safon ansawdd uchaf, gan mai 78 o safleoedd a gafodd y statws rhagorol o'i gymharu ag 80 y flwyddyn gynt.

2.1 Dosbarthiadau ansawdd dŵr ymdrochi, 2018



Ffynhonnell: Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ansawdd Dŵr Ymdrochi 2018

Cymru Gydnerth

Mae'r asesiad diweddaraf o berygl llifogydd yn dangos bod rhai cartrefi yng Nghymru mewn perygl o lifogydd o'r môr, afonydd a dŵr wyneb.

- Nid yw tirwedd a daeareg Cymru yn darparu llawer o storfeydd naturiol ar gyfer dŵr. Mae hynny'n golygu bod glaw yn teithio'n gyflym i afonydd a nentydd, sy'n gallu arwain at lifogydd.
- Mae'r data o'r asesiad diweddaraf o berygl llifogydd, a gynhaliwyd yn 2019, yn dangos bod mwy na 34,800 eiddo yng Nghymru mewn perygl mawr neu ganolig o lifogydd afonydd. Mae hyn yn cynnwys eiddo preswyl ac amhreswyl.
- Mae bron i 7,700 eiddo mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd llanw'r môr.
- Mae llawer mwy o fathau o eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb, sy'n cael ei achosi pan fydd dŵr glaw yn llenwi'r ddaear a'r systemau draenio. Mae mwy na 54,000 eiddo mewn perygl mawr neu ganolig o'r math yma o lifogydd.
- Bydd rhai mathau o eiddo mewn perygl o un neu ragor o fathau o lifogydd. Ar hyn o bryd, nid oes modd llunio amcangyfrif llawn o nifer y cartrefi sydd mewn perygl o unhyw fath o berygl llifogydd, gan fod posibilrwydd y gallai'r mathau hyn o eiddo gael eu cyfrif ddwywaith (neu deirgwaith).




Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru fod 28 y cant o bobl Cymru yn bryderus iawn neu braidd yn bryderus ynglŷn â pherygl llifogydd yn eu hardal.

Cymru Gydnerth

Mae mannau gwyrdd ar gael yn hawdd i'r rhan fwyaf o bobl ac mae'n ymddangos bod y canfyddiad ynghylch ansawdd y mannau hyn yn sefydlog.

- Mae mynediad at fannau gwyrdd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn gallu cael mynediad at fannau gwyrdd. Roedd ychydig dros 70 y cant o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn ei gweld yn hawdd cerdded i fan gwyrdd. Ond dywedodd 4 y cant nad oedd man gwyrdd ar gael.
- Dywedodd 84 y cant eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ag ansawdd y man gwyrdd lleol.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod mannau gwyrdd lleol wedi aros yr un fath dros y tair blynedd diwethaf, ar 65 y cant. Dywedodd tua 15 y cant bod y man gwyrdd lleol wedi gwaethgu, ond roedd 20 y cant yn credu ei fod wedi gwella.
- Roedd data diweddar gan y Mynegai Mannau Gwyrdd yn awgrymu nad yw mwy na 236,000 o bobl Cymru yn byw o fewn 10 munud o gerdded i fan gwyrdd.

2.2 Sut mae mannau gwyrdd lleol wedi newid dros y 3 blynedd diwethaf?




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19

Cymru Gydnerth

Mae ansawdd yr aer wedi gwella'n fawr ers y 1970au ond mae'r rheolau ynghylch lefelau diogel yn dal i gael eu torri'n rheolaidd mewn rhai ardaloedd.

- Mae'r dangosydd cenedlaethol ar allyriadau nitrogen deuocsid (NO_2) yn dangos yn gyffredinol bod lefelau wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf. Yn dilyn cynnydd bach yn 2016, gostyngodd y lefelau cyfartalog i $9 \mu\text{g}/\text{m}^3$ yn 2017.
- Mae'r crynodiadau uchaf o allyriadau nitrogen deuocsid i'w cael mewn ardaloedd trefol a gerllaw ffyrdd prysur, sy'n adlewyrchu cyfraniad traffig a gweithgareddau trefol at ansawdd aer gwael.
- Mae 45 o ardaloedd rheoli ansawdd aer yng Nghymru lle mae lefelau nitrogen deuocsid yn uwch na'r terfyn cymedrig blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl.
- Roedd tua 13 y cant o bobl yn anfodlon â lefel y llygredd aer yn eu hardal leol.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod yr hyn sy'n cyfateb i 1,600 o farwolaethau yn cael eu priodoli i gysylltiad â $\text{PM}_{2.5}$ bob blwyddyn, a thua 1,100 o farwolaethau'n cael eu priodoli i gysylltiad â NO_2 .

2.3 Dangosyddion Ansawdd Aer




Ffynhonnell: Dangosyddion Ansawdd Aer

Cymru Gydnerth

Mae Cymru ar flaen y gad yn rhyngwladol o ran ailgylchu gwastraff cartrefi, ond rydym yn dal i ddefnyddio adnoddau'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu.

- Mae swm y gwastraff trefol a gynhyrchir yng Nghymru wedi lleihau'n raddol ers dechrau'r 2000au, gyda pheth amrywiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Law yn llaw â hyn, mae cyfraddau ailgylchu wedi codi'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf ac mae tystiolaeth yn awgrymu mai Cymru sydd â'r gyfradd ailgylchu gwastraff cartrefi uchaf yn y byd. Fodd bynnag, disgynnodd y gyfradd ychydig yn 2017-18 am y tro cyntaf. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i welliant yn ansawdd yr adroddiadau data.
- Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 62.7 y cant o wastraff trefol wedi'i aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2017-18.
- Mae lleihau ac aildddefnyddio gwastraff yn un ffordd o leihau ein defnydd o adnoddau. Yn ôl amcangyfrifon 2015, pe bai pawb ar y blaned yn defnyddio'r un faint â chyfartaledd Cymru, byddai angen 2.5 planed arnom i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol ac i amsugno'r gwastraff.
- Mae ôl troed ecolegol Cymru, sef 10.05 miliwn hectar global, tua phum gwaith maint Cymru.

2.4 Canran gwastraff sy'n cael ei baratoi i'w aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio (targed ystatudol)




Ffynhonnell: Gwastraff dinesig awdurdodau lleol

Cymru Gydnerth

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi lleihau ers y 1990au, er gwaethaf rhai cyfnodau o gynnydd.

- Mae allyriadau yng Nghymru wedi gostwng chwarter ers 1990, a hynny wedi'i sbarduno gan effeithlonrwydd wrth gynhyrchu ynni, nwy naturiol yn disodli glo, lleihau'r diwydiant cemegol a newidiadau mewn allbwn gweithgynhyrchu.
- Mae tua thraean o'r allyriadau yn dod o'r cyflenwad ynni. Gall allyriadau o'r sector hwn fod yn gyfnewidiol - gwelwyd gostyngiad o 29 y cant yn 2017, yn bennaf oherwydd y gwaith israddio yng ngorsaf bŵer Aberddawan. Cyfrannodd hyn yn sylweddol at y gostyngiad o 13 y cant yn yr allyriadau cyffredinol y flwyddyn honno.
- Mae'n bwysig deall allyriadau sy'n deillio o nwyddau a ddefnyddir yng Nghymru, hyd yn oed os cânt eu cynhyrchu rywle arall. Nid yw hyn yn rhan o'r amcangyfrifon hyn o allyriadau ond fe'i cynhyrchir erbyn 2022 ar gyfer cyfnod cyllideb garbon gyntaf Cymru.
- Eleni, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd. Dywedodd 76 y cant o oedolion yng Nghymru yn 2018-19 eu bod yn pryderu am y newid yn yr hinsawdd.

2.5 Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl blwyddyn




Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Cymru Gydnerth

Mae capasiti prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi cynyddu yn y degawd diwethaf, ond arafodd y cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf.

- Mae tua 22 y cant o'r trydan a gynhyrchir yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Mae swm y trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn cyfateb i 48 y cant o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru, cynnydd o bum pwynt canran o'i gymharu â 2016.
- Ar ddiwedd 2017, y capasiti gosodedig ar gyfer ynni adnewyddadwy oedd 3,683 megawat. Mae hyn 10 y cant yn uwch na'r flwyddyn gynt ac yn fwy na 3 gwaith yn uwch nag yn 2012.
- Ynni gwynt yw bron i hanner y capasiti adnewyddadwy.
- Mae Cymru'n cynhyrchu mwy na dwywaith yn fwy o drydan nag y mae'n ei ddefnyddio, sy'n ei gwneud yn allforiwr net o drydan i Loegr ac Iwerddon.
- Ers 2005, mae cyfanswm y galw am drydan wedi lleihau 18 y cant. Bydd gostyngiad yn y galw am gynhyrchu ynni o danwyddau ffosil yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn cael effaith ar y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

2.6 Capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy




Ffynhonnell: Adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru

Cymru Gydnerth

Mae effeithlonrwydd ynni ein cartrefi wedi bod yn gwella, ond mae oedran stoc tai Cymru yn achosi heriau.

- Casglwyd data arolwg newydd ar effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru yn 2017-18 am y tro cyntaf ers 2008.
- Caiff effeithlonrwydd ynni ei raddio ar raddfa o A i G, ac A yw'r mwyaf effeithlon.
- Mae tystiolaeth bod cartrefi yng Nghymru yn dod yn fwy effeithlon o ran ynni. Yn 2017-18, y sgôr effeithlonrwydd ynni gyfartalog ar gyfer cartref yng Nghymru oedd band D. Mae hyn wedi gwella o fand E pan gasglwyd y data hwn ddiwethaf tua deng mlynedd yn ôl.
- Er gwaethaf y gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni ar gyfartaledd, dim ond 47 y cant o gartrefi yng Nghymru yr ystyriwyd bod ganddynt berfformiad ynni digonol.
- Cymru sydd â'r stoc tai hynaf yn y DU, gyda thros chwarter y cartrefi wedi'u hadeiladu cyn 1919. Mae cartrefi hyn yn wynebu mwy o heriau o ran gwella eu heffeithlonrwydd ynni. Roedd gan lai nag 20 y cant o gartrefi a adeiladwyd cyn 1919 berfformiad digonol o ran ynni, o'i gymharu â 78 y cant o gartrefi a adeiladwyd ar ôl 1980.

2.7 Canran yr anheddau â pherfformiad ynni boddhaol



Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru

Cymru Gydnerth

Darllen pellach:

Roedd adroddiad llawn, [Llesiant Cymru 2018](#) yn cynnwys dadansoddiad pellach o'r canlynol:

- Cynefinoedd y tir, dŵr croyw a'r môr
- Bioamrywiaeth
- Ansawdd pridd, dŵr ac aer
- Safleoedd gwarchodedig neu ddynodedig yng Nghymru
- Llygredd sŵn
- Cynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy
- Effeithlonrwydd ynni tai cymdeithasol
- Gwastraff diwydiannol, masnachol ac adeiladu
- Teithio carbon isel (sydd hefyd yn dod o dan y nod Cymru Lewyrchus)

Dolenni defnyddiol ar gyfer gwybodaeth bellach:

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 yn rhoi asesiad cynhwysfawr o'r graddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu data ar farn pobl am faterion amgylcheddol.

Mae Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017 yn nodi capasiti cynhyrchu ynni presennol Cymru ac yn dadansoddi sut y mae wedi newid dros amser.

Adroddiad gan Raglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig ar y cynnydd tuag at ddatblygu dangosydd cenedlaethol ar fioamrywiaeth.

Ffynonellau'r data

Bioamrywiaeth

Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Sefyllfa Adar yng Nghymru

Y Rhaglen Genedlaethol i Fonitro Ystlumod

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cymru Gydnerth

Cynefinoedd

Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir
Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol
Maint Cynefin Lled-Naturiol yng Nghymru

Dŵr

Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol
Cynlluniau Rheoli Basn Afon
Ansawdd dŵr ymdrochi

Perygl Ilifogydd

Asesiad perygl Ilifogydd Cymru: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Amgylchedd Lleol

Arolwg Cenedlaethol Cymru
Green Space Index

Defnyddio Adnoddau

Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol
Eunomia
Ôl Troed Ecolegol a Charbon Cymru

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol
Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ynni

Cynhyrchu Ynni yng Nghymru

Effeithlonrwydd Ynni Tai

Arolwg Cyflwr Tai Cymru

Cymru Iachach

Awdur: John Morris

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei hybu a lle mae pawb yn deall dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.



Cymru Iachach

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Mae gwrywod a benywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (yn seiliedig ar ddegraddau amddifadedd) 3.7 a 3.8 gwaith yn fwy tebygol o farw o achos y gellid ei osgoi na'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- Er bod disgwyliad oes yn uwch i fenywod, mae'r gyfran o fywyd a dreulir mewn iechyd da yn uwch i ddynion (78 y cant o'i gymharu â 75 y cant).
- Mae'r cyfraddau goroesi canser cyffredinol yn parhau i gynyddu, ond yn arafach nag o'r blaen.
- Mae'n bosibl fod yr hyn sy'n bwysig i'n llesiant yn newid. Mae gwaith dadansoddi gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU yn dangos bod iechyd, statws priodasol a gweithgarwch economaidd yn bwysig - ond ymddengys bod statws priodasol yn bwysicach nawr nag oedd chwe blynedd yn ôl.
- Roedd mwy o ferched na bechgyn wedi nodi profiadau o seiberfwlio, ac roedd y lefelau ar eu huchaf ym mlwyddyn 9.
- Mae ein deiet yn dal i gynnwys lefelau isel o ffrwythau a llysiau, a gormod o halen, siwgr a chig coch. Ond mae faint o gig coch, halen a siwgr rydym yn eu bwyta wedi gostwng yn gyffredinol dros y 9 mlynedd diwethaf.
- Cafwyd gwelliannau o ran peryglon sy'n gysylltiedig ag amodau tai a allai effeithio ar iechyd.



Mae defnydd problematig o'r cyfryngau cymdeithasol yn uwch ymysg merched na bechgyn yn yr ysgol uwchradd ac mae'n cynyddu gydag oedran.

Roedd tua un o bob pump menyw feichiog yn smygu, ac roedd tua 30 y cant yn ordew adeg eu hasesiad cyntaf.



Roedd y cyfraddau smygu yn disgyn gydag oedran – o dros 25 y cant ar gyfer menywod beichiog o dan 25 oed i 15 y cant ar gyfer y rheini sy'n 40 oed a throsodd.



Cymru Iachach

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at y nod yn y tymor hir?

- Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer disgwyliad oes (2015-2017) yn dangos ychydig bach o newid eto o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Roedd y cynnydd rhwng 2009-11 a 2015-17 lawer yn llai ar draws holl wledydd y DU na'r cynnydd yn y cyfnod blaenorol o 7 mlynedd, ac yng Nghymru yr oedd y cynnydd lleiaf.
- Mae'r disgwyliad bywyd iach a chanlyniadau marwolaeth yn parhau i fod yn waeth ar gyfer y rheini mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ond ar gyfer Cymru nid oes tystiolaeth bod y bwlch hwnnw yn cynyddu.
- Nid yw'r cyfraddau smygu, gordewdra ac yfed alcohol ar gyfer oedolion yn dangos unrhyw newid dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfraddau smygu a faint o alcohol a yfir wedi disgyn dros y tymor hir. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau gordewdra wedi cynyddu.
- Mae mesurau ffordd o fyw plant (dim smygu a dim yfed) wedi gostwng yn sylweddol dros y tymor hir.
- Mae'r ganran o oedolion sy'n dilyn llai na 2 (o'r 5) ymddygiad iach o ran ffordd o fyw yn parhau i fod tua 10 y cant gyda 12 y cant o blant yn dilyn llai na 2 (o'r 4).



Mae'r prif fesurau lles meddyliol ar gyfer plant yn dangos nad oes unrhyw newid wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf.



Mae boddhad â bywyd yn gyffredinol ar gyfer oedolion yn parhau i gynyddu.




Nid yw cyfradd y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel wedi newid llawer yn y degawd diwethaf, ond mae'r pum mlynedd ddiwethaf wedi gweld cynnydd yn dilyn y ffigurau isaf yn 2014 a 2015.

Cymru Iachach

Roedd disgwyliad oes wedi bod yn codi tan y blynyddoedd diwethaf ond nid yw wedi newid llawer o gwbl yn ddiweddar

- Roedd disgwyliad oes yn 82.2 mlwydd oed i fenywod ac yn 78.3 mlwydd oed i ddynion ar gyfer 2015-17. Mae hyn yn debyg i'r pedair blynedd diwethaf – ac yn dilyn sawl blwyddyn o gynnydd parhaus.
- Mae'r arafu a welwyd yng Nghymru ychydig yn fwy nag yng ngwledydd eraill y DU. Yn arbennig, ychydig iawn o gynnydd a welwyd mewn disgwyliad oes ar gyfer menywod yng Nghymru dros y 5 mlynedd diwethaf.
- Mae'r rhesymau am yr arafu hwn yn gymhleth, ac yn ganlyniad i nifer o ffactorau sydd wedi digwydd ar yr un pryd. Mae gwaith dadansoddi ar gyfer Lloegr yn dangos bod y rhain yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio a gostyngiadau yn y niferoedd sy'n marw o strôc a chlefyd y galon.

3.1 Disgwyliad oes adeg genedigaeth yn ôl rhyw (2001-03 = 100)




Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Iachach

Mae anghydraddoldebau o hyd mewn disgwyliad oes a marwolaethau, a'r bwlch yn dal yn eang.

- Mae gwaith dadansoddi diweddar (yn seiliedig ar 2015-2017) yn dangos bod y bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y rhai mwyaf difreintiedig a'r rhai lleiaf difreintiedig wedi aros yn sefydlog - ond mae'n 18.1 o flynyddoedd i ddynion a 19.4 i fenywod.
- Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes llawer yn llai - 9.0 mlynedd i ddynion a 7.5 i fenywod. Y rheswm am hyn yw bod y bobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn treulio cyfran fwy o'u bywydau mewn afiechyd (35 y cant o'i gymharu â 18 y cant).
- Yn 2017, roedd gwrywod a benywod oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (yn seiliedig ar ddegraddau amddifadedd) 3.7 a 3.8 gwaith yn fwy tebygol o farw o achos y gellid ei osgoi na'r rheini oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

3.2 Mynegai Olygol Anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes a disgwyliad oes iach, dynion a menywod




Ffynhonnell: Disgwyliad oes, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Iachach

Mae'r gwelliant mewn cyfraddau marwolaeth yn sgil rhai achosion wedi arafu.

- Er bod cyfraddau marwolaeth wedi gwella rhywfaint yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfradd y gwelliant wedi arafu ers 2011.
- Yn arbennig, mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer clefyd y cylchredol, a ddisgynnodd yn sydyn rhwng 2001 a 2011 (tua 6 y cant y flwyddyn), wedi bod yn gostwng yn llawer arafach ers hynny (tua 3 y cant y flwyddyn).
- Mae'r bwlch mewn cyfraddau marwolaeth rhwng y rhai mwyaf difreintiedig a'r rhai lleiaf difreintiedig hefyd yn amrywio yn ôl achos y farwolaeth - mae gwaith dadansoddi blaenorol (2012-2014) yn dangos mai clefyd y cylchredol, canser a chlefyd anadlol oedd â'r bylchau mwyaf.
- Mae gwaith dadansoddi newydd ar hunanladdiad yn dangos bod y cyfraddau yng Nghymru yn uwch ar gyfer pobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Pobl mewn swyddi sgiliau is oedd â'r mwyaf o risg o hunanladdiad.
- Yn 2018, bu marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau ar eu uchaf ers dechrau cofnodi, tra bo cyfraddau hunanladdiadau wedi aros yn gyson (er iddynt gynyddu ymysg menywod).

3.3 Cyfraddau marwolaeth o achosion penodol wedi'u safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth, Cymru, 2001-2017




Ffynhonnell: Digwyddiadau bywyd, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Iachach

Mae'r cyfraddau goroesi cancer cyffredinol yn parhau i gynyddu, ond yn arafach nag o'r blaen.

- Roedd cynnydd o 3.0 pwynt canran yn y gyfradd goroesi cancer un-flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd, o 70.9 y cant ar gyfer y bobl a gafodd ddiagnosis yn y cyfnod o 2007 i 2011 i 73.9 y cant ar gyfer y cyfnod diagnosis diweddaraf, o 2012 i 2016. Dros ddeng mlynedd roedd y cynnydd hwn yn 6.4 pwynt canran.
- Mae'r gyfradd goroesi pum mlynedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ddim ond tri chwarter beth ydyw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, heb lawer o welliant yn ddiweddar o ran anghydraddoldeb.
- Mae'r gyfradd goroesi cancer gyffredinol ychydig yn uwch ymysg menywod na dynion, ond mae'r bwlch yn lleihau.
- Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ganser, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau goroesi pum mlynedd rhwng Cymru a Lloegr ar wahân i lewcemia, a chanser y prostad a'r stumog.

3.4 Cyfraddau goroesi cancer am 5 mlynedd ac 1 flwyddyn




Ffynhonnell: Goroesi cancer, Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Cancer Cymru

Cymru Iachach

Nid yw canran y babanod â phwysau geni isel wedi newid llawer dros y degawd diwethaf.

- Nid yw cyfradd y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel wedi newid llawer yn y degawd diwethaf, ond gwelwyd cynnydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf o'i gymharu â'r ffigurau isaf yn 2014 a 2015.
- Mae'r gyfradd yn cynyddu gydag amddifadedd - gyda 7.4 y cant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cael eu geni â phwysau geni isel yn 2017 o'i gymharu â 3.9 y cant yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- Roedd tua 1 o bob 5 menyw feichiog yn smygu, ac roedd tua 30 y cant yn ordew adegu eu hasesiad cyntaf.
- Mae cyfraddau smygu ymysg menywod beichiog yn gostwng yn ôl oedran - o dros 25 y cant ar gyfer menywod o dan 25 oed i 15 y cant i'r rheini sy'n 40 oed a throsodd.
- Bu cynnydd yn nifer y genedigaethau rhwng 2001 a 2012 ond mae wedi gostwng ers hynny. Mae'r gyfradd ffrwythlondeb yng Nghymru ar ei hisaf ers dechrau cofnodi, ac mae'n dal yn is nag ydyw yn Lloegr.

3.5 Canran ar gyfer unig fabanod byw sy'n cael eu geni â phwysau geni isel o dan 2,500g




Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol

Cymru Iachach

Dros y tymor hir, mae gostyngiadau wedi bod yn y cyfraddau smygu ac yfed alcohol - yn arbennig ar gyfer plant, ond heb lawer o newid yn y blynyddoedd diwethaf.

- Roedd y cyfraddau smygu yn 17 y cant yn 2018/19, heb unrhyw newid sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae wedi disgyn o dros 25 y cant yn 2003/04. Mae cyfraddau smygu yn parhau'n uchel ar gyfer y rheini mewn ardaloedd mwy difreintiedig, ond mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos y gallai'r bwch fod yn cau.
- Nid yw'r ganran o oedolion a yfodd fwy na'r canllawiau wythnosol wedi newid yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ond yn wahanol i smygu, mae pobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn yfed mwy o alcohol ar gyfartaledd na'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Gwelwyd gostyngiad sydyn mewn cyfraddau smygu ac yfed ymysg plant rhwng 2002 a 2014, ac roeddent yn debyg yn 2018.
- Nid yw'r ganran o oedolion sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw wedi newid yn ddiweddar (tua 10 y cant), ac nid yw wedi newid ychwaith ar gyfer plant (12 y cant).

3.6 Canran o blant 11-16 oed yn dilyn ymddygiadau iechyd penodol



*Mae data 2018 yn seiliedig ar SHRN ac felly nid oes modd eu cymharu â blynyddoedd cymharol.


Ffynhonnell: Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol (HBSC) a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

Cymru Iachach

Mae ein deiet yn dal i gynnwys lefelau isel o ffrwythau a llysiau a lefelau uchel o halen, siwgr a chig coch.

- 24 y cant o oedolion (16+) a fwytaodd bum ffrwyth a llysieuyn y dydd yn 2018-19, sef y nifer a argymhellir. Nid yw hwn wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Roedd oedolion yn bwyta mwy na phlant ar gyfartaledd (3.8 o ddogneau i oedolion o'i gymharu â 2.7 ar gyfer y rhai rhwng 11 a 18 oed mwy o ddogneau yn seiliedig ar 2012/2013 –2016/2017).
- Mae mwy o gig coch yn cael ei fwyta nag a argymhellir, ond mae wedi bod yn gostwng.
- Mae faint o halen a siwgr sy'n cael ei fwyta hefyd yn uwch na'r lefelau a argymhellir - ond mae wedi bod yn gostwng. Yn arbennig, mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn faint o ddiodydd siwgr y mae plant yn ei yfed.

3.7 Canran yr rheini sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn ac sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd, fesul cwintel amddifadedd, 2018-19




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cymru Iachach

Rydym yn fwy bodlon â'n bywydau (ar y cyfan) ac mae'n perthynas ag eraill, ein statws economaidd a'n hiechyd yn bwysig i'n llesiant.

- Mae llesiant meddwl cyfartalog (a gaiff ei fesur gan ddefnyddio Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin) yn dangos cynnydd bach ar gyfer 2018-19 o'i gymharu â 2016-17, ond mae angen mwy o ddata er mwyn gweld a yw hynny'n rhan o duedd fwy hirdymor.
- Mewn gwaith dadansoddi blaenorol ar gyfer y DU, dangoswyd bod llesiant meddyliol pobl sydd mewn cyflogaeth, yn briod neu mewn iechyd da yn uwch. Efallai bod hyn yn newid, gan fod gwaith dadansoddi newydd yn dangos bod statws o ran perthynas yn dod yn bwysicach.
- Mae boddhad â bywyd yn gyffredinol wedi bod yn cynyddu ers 2011-12, gyda gostyngiadau bychan mewn lefelau o orbryder ar gyfartaledd.
- Mae lefelau llesiant a boddhad â bywyd ymysg plant (11-16 oed) yn gostwng gydag oedran, ac yn gostwng yn fwy ymysg merched na bechgyn.

3.8 Boddhad â bywyd - Prif fesurau llesiant (sgoriau cymedrig allan o 10)




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Iachach

Mae gwelliant wedi bod yng nghyflwr tai yn y 10 mlynedd ddiwethaf.

- Mae amrywiaeth o ffactorau yn bwysig i iechyd pawb - er enghraifft mae cyflogaeth, llygredd aer a thai i gyd yn effeithio ar ganlyniadau iechyd cyffredinol.
- Mae cyflwr tai yng Nghymru wedi gwella dros y 10 mlynedd ddiwethaf - gan leihau'r risg bosibl i iechyd y meddianwyr.
- Dangosodd Arolwg Cyflwr Tai Cymru fod 82 y cant o anheddau yn rhydd o'r peryglon mwyaf difrifol (categori 1) yn 2017-18, o'i gymharu â 71 y cant yn 2008.
- Gwelwyd gwelliannau ym mhob deiliadaeth.

3.9 Canran yr anheddau sy'n bodloni mesurau procsi cyffredinol Safon Ansawdd Tai Cymru yn ôl deiliadaeth, 2008 a 2017-18 (gan ddefnyddio data arolwg cyflwr)




Ffynhonnell: Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008; Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Cymru Iachach

Mae'r cyfryngau cymdeithasol a seibrfwlio yn effeithio ar ferched yn fwy na bechgyn.

- Ar gyfartaledd, roedd defnydd problematig o'r cyfryngau cymdeithasol yn 2018 yn uwch ymysg merched ac roedd yn cynyddu gydag oedran.
- Nododd cyfran weddol fach o bobl ifanc eu bod wedi cymryd rhan mewn seibrfwlio. Nododd cyfran fwy eu bod wedi profi seibrfwlio (bron un o bob pump). Dywedodd mwy o ferched eu bod wedi cael profiad o seiberfwlio, ac roedd y lefelau ar eu huchaf ym mlwyddyn 9.

3.10 Canran y plant 11-16 oed sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd broblematic, 2018




Ffynhonnell: Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol

Cymru Iachach

Nid yw nifer ohonom yn bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol.

- 58 y cant o ddynion a 47 y cant o fenywod sy'n bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol .
- Mae lefelau gweithgarwch corfforol yn lleihau yn yr ysgol uwchradd - roedd 26 y cant o'r plant 11 oed yn bodloni'r canllawiau ar gyfer plant o'i gymharu â 12 y cant ar gyfer pobl ifanc 16 oed.
- Roedd traean o'r oedolion a hanner o'r plant wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos - nid yw hyn wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.
- Roedd traean o'r plant 11-16 oed yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol, gyda'r rhai o deuluoedd llai cefnog yn fwy tebygol o gerdded neu feicio.
- Dywedodd dros hanner o'r oedolion (58 y cant) eu bod yn cerdded neu'n beicio er mwyn cyrraedd rhywle, gyda chanran uwch mewn ardaloedd trefol (63 y cant) o'i gymharu ag ardaloedd gwledig (48 y cant).

3.11 Canran y plant ac oedolion sy'n cydymffurfio â chanllawiau argymelledig ar gyfer gweithgarwch corfforol



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 (oedolion); Llywodraeth Cymru ac Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol, 2013-14

Y canllawiau argymelledig ar gyfer gweithgarwch corfforol oedd o leiaf 60 munud y diwrnod ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd, ac o leiaf 150 munud yr wythnos ar gyfer oedolion

Nid oes modd gwneud cymariaethau manwl rhwng data oedolion a data plant oherwydd gwahaniaethau mewn canllawiau a dulliau mesur.

Cymru Iachach

Darllen pellach:

Roedd adroddiad llawn, [Llesiant Cymru 2018](#) yn cynnwys dadansoddiad pellach o'r canlynol:

- Llesiant meddyliol
- Llesiant plant
- Goroesi canser
- Ffordd o fyw oedolion
- Ffordd o fyw plant

Mae'r adroddiad yma yn crybwyll ystod eang o bynciau, ac o ganlyniad, dim ond mesurau cynnydd lefel uchel y mae modd eu crybwyll. Mae dadansoddiad mwy manwl ar sawl un o'r pynciau yma ar gael drwy'r cyfrwng o ddatganiadau ystadegol a gyhoeddir gan [Lywodraeth Cymru](#), y [SYG](#) a chynhyrchwyr ystadegau eraill.

Dolenni defnyddiol i gael rhagor o wybodaeth:

[Fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd](#) sy'n rhoi data ar gyfer y dangosyddion, yn ôl nodweddion ac ardaloedd bychan

[Dangosfwrdd Llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) sy'n rhoi trosolwg gweledol o lesiant yn y DU

[Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol](#) sy'n dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud i wella gofal a chymorth

Ffynonellau'r data

Disgwyliad Oes

Dadansoddiad Public Health England o dueddiadau marwolaeth yn Lloegr

Dadansoddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o gyfraddau marwolaeth yn ôl cwintil amddifadedd

Disgwyliad oes yn ôl deigradd amddifadedd

Marwolaethau y gellid eu hosgoi

Marwolaethau yn ôl achos, 2001-2016

Hunanladdiad yng Nghymru

Hunanladdiadau 2018

Marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau

Goroesi canser

Llesiant

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ffactorau sy'n effeithio ar lesiant

Mesurau Llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru Iachach

Ffyrdd o fyw

Arolwg cenedaethol o ddeiet a maeth

Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Arolwg ar chwaraeon ysgol

Mamolaeth a genedigaeth

Dangosyddion mamolaeth

Data cenedlaethol ar iechyd plant

Genedigaethau

Ansawdd tai

Safon ansawdd tai Cymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Awduron: Sue Leake a Steven Macey



Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Anfantaï economaidd-gymdeithasol

- Roedd bron chwarter holl bobl Cymru (24 y cant) yn byw mewn tldi incwm cymharol (ar ôl talu costau eu tŷ) rhwng 2015-16 a 2017-18. Plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tldi cymharol; 29 y cant o blant o'u cymharu â 19 y cant o bensiynwyr.
- Roedd dros ddwy ran o bump (42 y cant) o'r rheini sy'n rhieni sengl yn byw mewn amddifadedd materol yn 2018-19, a dywedodd 3 y cant o aelwydydd eu bod wedi derbyn bwyd gan fanc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Yn 2018, amcangyfrifwyd bod 12 y cant o aelwydydd yn byw mewn tldi tanwydd (i lawr o 26 y cant o aelwydydd yn 2008).

Rhywedd



Mae merched yn parhau i gael canlyniadau addysgol gwell na bechgyn. Yn 2018 roedd y bwlch ar gyfer y rheini sy'n llwyddo i gyflawni trothwy Lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi codi i 10.5 pwynt canran.

- Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu rhywfaint yn 2018, hyd at 7.3 y cant.
- Yn 2017/18, roedd 54 y cant o'r penodiadau cyhoeddus newydd a 48 y cant o'r ailbenodiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys menywod.

Oedran

- Ymhlith y rheini sy'n 16-64 oed, mae'r gyfradd cyflogaeth yn parhau i fod ar ei uchaf ar gyfer y rheini sy'n 25 i 49 oed, ac ar ei hisaf ar gyfer y grŵp oedran 16 i 24 oed.
- Yn 2017/18, roedd pobl sy'n hŷn na 55 oed yn ffurfio 61 y cant o'r penodiadau cyhoeddus newydd ac ailbenodiadau a wnaed gan lywodraeth Cymru.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Ethnigrwydd

- Mae 4.4 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru yn disgrifio'u hunain yn Ddu, yn Asiaidd neu yn rhan o grŵp lleiafrifoedd ethnig arall (BAME); a'r ail grŵp ethnig mwyaf (ar ôl Gwyn) yw Asiaidd, sy'n cynnwys 2.1 y cant o'r boblogaeth (2015-17).



Mae'r bwlch cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd yng Nghymru yn 7.5 y cant. Mae hynny'n golygu bod gweithwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru wedi ennill, ar gyfartaledd, 7.5 y cant yn llai fesul awr na gweithwyr Gwyn Prydeinig yng Nghymru yn 2018.

- Yn 2017/18, roedd unigolion o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn ffurfio 9.2 y cant o benodiadau cyhoeddus newydd a 2.3 y cant o ailbenodiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru.
- Bu cynnydd o 10 y cant mewn troseddau casineb ar sail hil a gofnodwyd rhwng 2016-17 a 2017-18.

Crefydd

- Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf (2015-2017), mae dros hanner y boblogaeth (52.8 y cant) yn ystyried eu hunain yn Gristnogion, tra bo 42.7 y cant wedi dweud eu bod yn ddigrefydd.
- Roedd bron 50,000 o bobl (1.6 y cant o'r boblogaeth) yn ystyried eu bod yn Fwslimiaid; roedd dros ddwy ran o dair o'r boblogaeth Fwslimaidd yn byw yn y De-ddwyrain.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Cyfeiriadedd rhywiol

- Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, mae 2.0 y cant o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol, cynnydd o 1.3 y cant yn 2012.
- Bu 372 o briodasau o'r un rhyw yn 2016, tra bo partneriaethau sifil wedi lleihau'n sylweddol i tua 30 y flwyddyn ers 2014.
- Mae troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu ac yr ystyriwyd mai cyfeiriadedd rhywiol oedd y ffactor a'u hysgogodd wedi cynyddu'n sylweddol; cafodd 670 o droseddau o'r fath eu cofnodi yn 2017-18, ond mae ymchwil Stonewall Cymru'n awgrymu nad yw'r heddlu'n cael gwybod am lawer o ddigwyddiadau o'r fath.

Anabledd

- Mae'r gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl rhwng 16 a 64 oed (48 y cant yn y flwyddyn sy'n dod i ben ym Mawrth 2019) yn dal yn is na'r gyfradd ymysg pobl nad ydynt yn anabl, ond mae'r bwlch wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae byw ar aelwyd sy'n cynnwys unigolyn sydd ag anabledd yn parhau i wneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol (i blant a phobl oedran gwaith).
- Mae cyfran y bobl sydd â salwch cyfyngol hirdymor neu anabledd sy'n byw ar aelwyd mewn amddifadedd materol wedi lleihau rhywfaint i 21 y cant yn 2018-19, ond mae'n parhau i fod ddwywaith gymaint ag ydyw ar gyfer y rheini nad ydynt yn anabl (10 y cant).

Statws priodasol

- Mae'n dal yn wir fod pobl sy'n briod yn llai tebygol o fyw mewn amddifadedd materol na'r rhai sydd wedi gwahanu neu wedi ysgaru.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r nod yn y tymor hir?

- Ychydig iawn o newid a fu o ran lefelau tlodi incwm cymharol yng Nghymru ers sawl blwyddyn, ond gwelwyd newidiadau ar gyfer rhai grwpiau. Er mai plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi cymharol, gwelwyd gostyngiad cyffredinol mewn tlodi plant dros y 5 mlynedd ddiwethaf, ond mae tlodi cymharol ymysg pensïynwyr wedi cynyddu – mae cyfraddau'r ddau yn dal yn dipyn is nag oedd y cyfraddau tua diwedd yr 1990au.
- Mae bwlch o hyd rhwng canlyniadau addysgol plant yn yr ysgol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant nad dynt yn gymwys, ac mae'r bwlch yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.
- Er gwaethaf cynnydd bach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi bod yn lleihau'n gyffredinol. Ond mae llai o fenywod na dynion wedi'u cyflogi mewn gwaith sy'n cyfateb i ddiffiniad ein dangosydd cenedlaethol o gyflogaeth.
- Mae sgoriau bodlonrwydd â bywyd yn gostwng ymysg pobl ganol oed (45–64), ac mae pobl 16 i 24 oed bellach yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig na phobl 65 oed neu hŷn.
- Mae'r data diweddaraf yn dal i ddangos rhywfaint o wahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau ethnig, gyda chyfran uwch o blant o gefndir ethnig Asiaidd, Tsieineaidd ac ethnigrwydd cymysg yn cyrraedd y lefelau cyrhaeddiad disgwyledig na'r rheini o gefndir Gwyn.
- Er gwaethaf rhywfaint o welliant, mae'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi'u tangynrychioli o hyd mewn bywyd gwleidyddol lleol. Ond mae cyfran y penodiadau cyhoeddus a wnaed gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r nod yn y tymor hir?


- Bernir o hyd bod hil yn ffactor allweddol mewn bron 7 allan o 10 o'r holl droseddau casineb, ac mae digwyddiadau hil a gofnodwyd wedi bod yn cynyddu.
- Mae'r gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl (16-64 oed) yn dal yn is na'r gyfradd ymysg pobl nad ydynt yn anabl.
- Mae pobl sydd wedi ysgaru, wedi gwahanu neu sydd erioed wedi priodi yn dal yn fwy tebygol o gael trafferthion ariannol. Aelwydydd un rhiant sydd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol.
- Mae cyfran y boblogaeth yng Nghymru sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf (2 y cant o'r boblogaeth erbyn hyn).
- Ers 2014, pan ddaeth priodasau o'r un rhyw yn gyfreithiol, mae nifer y priodasau o'r un rhyw wedi cynyddu (i 372 yn 2016), tra bo nifer y partneriaethau sifil wedi lleihau'n sylweddol i tua 30 partneriaeth sifil bob blwyddyn.
- Mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru sydd wedi bod yn gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol, wedi bod yn cynyddu (un o bob pum trosedd gasineb a gofnodir). Ond mae ymchwil Stonewall Cymru yn awgrymu nad yw llawer o ddigwyddiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r heddlu.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Anfantaïd economaidd-gymdeithasol: Mae tlodi plant wedi bod yn lleihau tra bo tlodi ymysg pensiynwyr wedi bod yn cynyddu yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, ond mae'r cyfraddau cyffredinol ar gyfer tlodi wedi aros yn gyson, ac yn is na'r cyfraddau a welwyd yn y 1990au.

- Rhwng 2015-16 a 2017-18, roedd bron chwarter y boblogaeth (24 y cant) yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl talu costau eu tŷ.
- Plant yw'r grŵp poblogaeth sy'n fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai hwnnw oedd yr achos ar gyfer 29 y cant o blant yng Nghymru o'u cymharu â 19 y cant o pensiynwyr.
- Yn 2018-19, disgrifiwyd 14 y cant o oedolion fel rhai a oedd yn byw mewn amddifadedd materol (hynny yw, yn methu fforddio pethau penodol megis gwresogi'r tŷ yn ddigonol, cynilo arian yn rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn). Roedd hynny'n wir i ganran uwch o ferched (15 y cant) na dynion (12 y cant).
- Mae aelwydydd un rhiant yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na mathau eraill o aelwydydd; roedd dros ddau o bob pum rhiant sengl (42 y cant) mewn amddifadedd materol yn 2018-19.
- Roedd 3 y cant o aelwydydd (yn 2018-19) wedi dweud eu bod wedi derbyn bwyd o fwyd banc yn ystod y 12 mis diwethaf; ac amcangyfrifir bod 155,000 o aelwydydd (12 y cant) yn byw mewn tlodi tanwydd.
- Er gwaethaf rhywfaint o welliant yn ddiweddar mewn perthynas â phlant mewn gofal, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant mewn gofal yn cael canlyniadau addysgol is mewn ysgolion ar gyfartaledd, gyda'r bwlch yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

4.1 Canran yr holl bobl, plant, pensiynwyr ac oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, 1994 i 2018



Ffynhonnell 1: Tlodi: StatsCymru


Ffynhonnell 2: Tablau cartrefi islaw'r incwm cyfartalog ar gyfer Cymru: Llywodraeth Cymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Rhywedd: Yn yr ysgol, mae merched yn parhau i gael canlyniadau addysgol gwell na bechgyn, a hefyd mae merched yn fwy tebygol o barhau â'u haddysg amser llawn ar ôl 16 oed.

- Mae disgwyliad oes yn dal yn uwch i ferched nag i ddynion, ond gallant ddisgwyl treulio cyfran is o'u bywyd mewn iechyd da.
- O tua 14 oed (blwyddyn 9) ymlaen mae mwy o ferched yn dweud bod eu hiechyd yn eithaf da neu'n wael na bechgyn; erbyn 16 oed (blwyddyn 11) mae un o bob tair merch yn dweud bod eu hiechyd yn wael o'u cymharu ag un o bob pedwar bachgen.
- Ar gyfartaledd, roedd gan fechgyn ifanc yn eu glasoed sgoriau uwch ar gyfer lles meddyliol ac roeddent yn fwy bodlon ar eu bywydau na merched ifanc yn eu glasoed. Gwelwyd mwy o fwlch erbyn iddynt gyrraedd 16 oed. Mae hynny'n parhau nes eu bod yn oedolion, ac mae sgoriau cyfartalog dynion ar gyfer lles meddyliol yn gyson yn uwch na rhai menywod ar draws pob grŵp oedran; ond mae cyfraddau hunanladdiad yn parhau i fod yn uwch ar gyfer dynion nag ydynt ar gyfer menywod.
- Yn y maes addysg, o'r Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed) hyd at Gyfnod Allweddol 4 (15 oed), mae cyfran uwch o ferched na bechgyn yn cael y canlyniadau disgwylidig. Mae'r bwlch yn lleihau i ddechrau hyd at Gyfnod Allweddol 2, ond yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Yn 2018, 10.5 pwynt canran oedd y bwlch ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (Lefel 2 cynhwysol).
- Mae cyfran uwch o fenywod 16-18 oed na dynion yn parhau â'u haddysg amser llawn; dyna'r sefyllfa hefyd ar gyfer y rheini 19 i 24 oed.

4.2 I ba raddau mae merched yn gwneud yn well na bechgyn o ran cyrhaeddiad addysgol, yn ôl cyfnod allweddol, 2008/09 i 2018/19



Mae'r llinell doredig yn golygu nad oes modd cymharu'r data cyn ac ar ôl y pwynt yma. Dylid osgoi cymariaethau dros y cyfnod hwnnw.


Ffynhonnell: StatsCymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Rhywedd (parhad): Er bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu rhywfaint eleni, ac mae cyfraddau cyflogaeth yn parhau i fod yn is ar gyfer menywod na dynion; bellach mae mwy o gydraddoldeb rhwng dynion a merched mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus newydd.

- Mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn is ymysg merched na dynion, 71.1 y cant i ferched a 79.2 y cant i ddynion ym misoedd Mai - Gorffennaf 2018. Mae cyfradd anweithgarwch economaidd yn uwch i ferched (26.6 y cant) na dynion (17.4 y cant) dros y cyfnod hwn.
- Yn 16-18 oed, mae merched yn fwy tebygol na bechgyn i fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Am y tro cyntaf yn 2018, roedd cyfranogaeth merched hefyd yn uwch na bechgyn ar gyfer unigolion 19-24 oed.
- Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sy'n seiliedig ar enillion amser llawn canolrifol fesul awr, yn 7.3 y cant yn 2018, i fyny o 6.4 y cant yn 2017. O'r 11 o wledydd a rhanbarthau yn y DU lle mae dynion yn ennill mwy na menywod, yng Nghymru y mae'r bwlch cyflog lleiaf ond un.
- Mae menywod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned (58 y cant o'u cymharu ag 83 y cant o ddynion yn 2018-19), er gwaethaf y ffaith bod dynion yn fwy tebygol o ddioddef troseddu treisgar na menywod.
- Yn 2017/18, roedd 54 y cant o benodiadau cyhoeddus newydd a 48 y cant o ailbenodiadau cyhoeddus a wnaed gan Lywodraeth Cymru wedi'u rhoi i fenywod. Yn 2013/14, roedd 60 y cant o benodiadau wedi'u rhoi i ddynion.

4.3 Cyfradd cyflogaeth (canran oedran y boblogaeth sy'n 16-64 oed) yn ôl rhywedd a blwyddyn, 2005 i 2019 (cyfraddau ar gyfer Mai i Orffennaf)




Ffynhonnell 1: Arolwg y Gweithlu, Swyddfa Ystadegau Gwladol
Ffynhonnell 2: StatsCymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Oedran: Mae ein bodlonrwydd â bywyd yn tueddu i fod yn uwch yn gynharach mewn bywyd ac yn y grwpiau oedran hŷn; a bellach mae tlodi incwm cymharol yn uwch yn y boblogaeth sy'n gweithio nag ar aelwydydd pensiynwyr.

- Mae llesiant goddrychol yn tueddu i fod yn uwch yn gynharach mewn bywyd ac yn y grwpiau oedran hŷn, gan ostwng yn y grŵp oedran 45-59. Yn 2018-19, mae'r sgoriau uchaf o ran bodlonrwydd â bywyd ar gyfer grŵp oedran 65-74 oed (8.1) ac ar gyfer grŵp oedran 75 oed a hŷn (7.9), a'r rhai isaf ar gyfer rheini sy'n 45-64 oed (7.6).
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran uwch o'r boblogaeth oedran gweithio wedi bod mewn tlodi cymharol nag aelwydydd pensiynwyr.
- Mae'r gyfradd cyflogaeth ar ei uchaf yn y grŵp oedran 25 i 49 oed, ac efallai fod y cynnydd a welwyd o'r blaen yn y gyfradd cyflogaeth ymysg pobl 65 oed neu hŷn yn dechrau lefelu.

4.4 Boddhad â bywyd, yn ôl grŵp oedran, 2018-19



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru: Llywodraeth Cymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Oedran (parhad): Er bod pobl hŷn yn tueddu i gael ymdeimlad cryfach o gymuned a bod yn fwy bodlon ar eu hardal leol yn gyffredinol, gallent deimlo'r lleiaf diogel yn eu cymunedau ar ôl iddi dywyllu.

- Mae pobl hŷn (65 oed a hŷn) yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cryf o gymuned o'u cymharu â grwpiau oedran iau. Mae 90 y cant o'r rheini 75 oed a hŷn yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw ynddi.
- Yn gyffredinol, mae grwpiau oedran iau yn wynebu perygl uwch o ddioddef pob math o droseddu (gan gynnwys troseddau treisgar). Roedd y cyfraddau uchaf o droseddu yng Nghymru yn y mwyafrif o gategoriâu yn y 12 mis diwethaf hyd at fis Mawrth 2019 yn y grŵp oedran 16-24, a'r cyfraddau isaf yn y grŵp oedran 65 a hŷn. Fodd bynnag, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru y rheini sy'n 75 oed neu hŷn yw'r rheini sy'n teimlo'r lleiaf diogel yn eu cymunedau ar ôl iddi dywyllu.
- Yn 2017/18, roedd pobl sy'n hŷn na 55 oed yn ffurfio 61 y cant o'r penodiadau cyhoeddus newydd ac ailbenodiadau a wnaed gan lywodraeth Cymru.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Ethnigrwydd: Mae plant o rai grwpiau ethnig (e.e. Tsieineaidd, Asiaidd ac ethnigrwydd Cymysg) yn tueddu i gyflawni'n well ar gyfartaledd yn yr ysgol o'u cymharu ag eraill; ac yn gyffredinol mae pobl Dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd Ethnig bellach yn cael eu cynrychioli'n well mewn addysg uwch ac mewn penodiadau cyhoeddus newydd.


- Roedd 95.6 y cant o'r boblogaeth (yn 2015 i 2017) yn disgrifio'u grŵp ethnig yn Wyn; gan amrywio yn ôl rhanbarth, o 97.8 y cant o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru i 94.3 y cant yn Ne-ddwyrain Cymru.
- Mae 4.4 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru yn disgrifio'u hunain yn Ddu, yn Asiaidd neu yn grŵp lleiafrifoedd ethnig arall (BAME); a'r ail grŵp ethnig mwyaf (ar ôl Gwyn) yw Asiaidd, sy'n cynnwys 2.1 y cant o'r boblogaeth (2015-17).
- Mae cyrhaeddiad addysgol yn dal yn isel ymysg plant sipsiwn-teithwyr, ac mae cyfran uwch o blant o ethnigrwydd Cymysg, Asiaidd neu Tsieineaidd yn cyrraedd lefelau cyrhaeddiad disgwyledig yn yr ysgol na'r rhai o gefndir Gwyn.
- Mae cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth o bobl Dduon a lleiafrifoedd Ethnig yn cofrestru i astudio cwrs addysg uwch yng Nghymru; roedd 11.3 y cant o'r myfyrwyr a gofrestrodd mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2017/18 yn dod o'r boblogaeth o bobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Yn 2018 gwelwyd nad oedd gan gyfran uwch o oedolion o gefndir lleiafrifoedd Ethnig unrhyw gymwysterau (15 y cant o gymharu â 9 y cant ar gyfer y grŵp 'Gwyn').
- Gwelwyd bod penodiadau cyhoeddus i bobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn cynyddu. Yn 2017/18, roedd 9.2 y cant o benodiadau cyhoeddus newydd a 2.3 y cant o ailbenodiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru wedi'u rhoi i unigolion o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Yn 2013/14 y ffigurau cymharol a welwyd oedd 4.3 y cant ar gyfer penodiadau newydd a 2.0 y cant ar gyfer ailbenodiadau.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Ethnigrwydd (parhad): Mae cyfraddau cyflogaeth a chyflogau cyfartalog yn dal i fod yn is ar gyfer grwpiau pobl Dduon a lleiafrifoedd Ethnig; mae aelwydydd o'r boblogaeth heb fod yn Wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol.

- Mae cyfraddau cyflogaeth (2015-17) ar gyfer poblogaeth Cymru 16-64 oed ar eu huchaf ymysg unigolion sydd ag ethnigrwydd 'Gwyn' (72 y cant), ac mae cyfraddau cyflogaeth ar eu hisaf ymysg unigolion sydd ag ethnigrwydd 'Arall' (50 y cant). Y cyfraddau cyfatebol ymysg unigolion sydd ag ethnigrwydd 'Du', 'Asiaidd' a 'Chymysg' yw 59 y cant, 60 y cant a 69 y cant yn y drefn honno.
- Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer grwpiau ethnig yn amrywio i ddynion ac i fenywod. Gwelwyd y bwlch mwyaf mewn cyfraddau cyflogaeth ar gyfer y grŵp ethnig Cymysg (81 y cant o ddynion o gymharu â 54 y cant o fenywod).
- Mae'r bwlch cyflog mewn perthynas ag ethnigrwydd yng Nghymru yn 7.5 y cant. Mae hynny'n golygu bod gweithwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru wedi ennill, ar gyfartaledd, 7.5 y cant yn llai fesul awr na gweithwyr Gwyn Prydeinig yng Nghymru yn 2018.
- Dros y blynyddoedd diweddar (2013-14 i 2017-18) roedd pobl a oedd yn byw ar aelwydydd lle roedd y penteulu'n dod o grŵp ethnig heb fod yn Wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol (31 y cant) o gymharu â'r rheini lle roedd y pen teulu'n dod o grŵp ethnig Gwyn (23 y cant).

4.5 Cyfraddau cyflogaeth yn ôl ethnigrwydd a rhywedd, 2015-2017




Ffynhonnell: set ddata gyfun yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2015-17

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Ethnigrwydd (parhad): Mae nifer y troseddau casineb ar sail hil a gofnodwyd wedi bod yn cynyddu, ac mae aelwydydd o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli cyfran uchel o'r rheini sy'n ddigartref.

- Barnwyd bod hil yn ffactor ysgogol mewn 68 y cant o droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2017-18. Bu cynnydd o 10 y cant mewn troseddau casineb ar sail hil a gofnodwyd rhwng 2016-17 a 2017-18.
- O'r aelwydydd hynny a wnaeth gais i awdurdodau lleol yn 2018-19 am gymorth i gael cartref gan eu bod yn cael eu bygwth â digartrefedd, roedd 8 y cant o gefndiroedd pobl Dduon a lleiafrifoedd Ethnig. Fodd bynnag, mae 14 y cant o aelwydydd sy'n cael eu hasesu i fod yn anfwriadol ddigartref a chanddynt angen blaenoriaethol yn dod o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac o'r rheini roedd 83 y cant wedi derbyn cynnig am lety addas sefydlog.

4.6 Troseddau casineb yn ôl ffactor ysgogol, 2012-13 i 2017-18



(a) Gellir priodoli mwy nag un ffactor ysgogi i drosedd, felly nid yw rhai o'r categorïau o droseddau casineb yn cyfleu cyfanswm y troseddau. Nid yw cyfanswm y troseddau yn 2011-12 ar gael.


Ffynhonnell: y Swyddfa Gartref

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Crefydd: Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf yng Nghymru o hyd, ond er bod gan 4 y cant o'r boblogaeth grefydd arall, mae nifer o bobl bellach yn dweud eu bod yn ddigrefydd.

- Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf yng Nghymru o hyd. Yn 2015-2017 roedd dros hanner nifer y boblogaeth yng Nghymru yn ystyried eu bod yn Gristnogion (52.8 y cant), ac roedd 42.7 y cant o'r boblogaeth wedi datgan eu bod yn ddigrefydd.
- Roedd bron 50,000 o bobl (1.6 y cant o'r boblogaeth) yn ystyried eu bod yn Fwslimiaid. Roedd dros dwy ran o dair (69 y cant) o'r boblogaeth Fwslimaidd yn byw yn Ne-ddwyrain Cymru.
- Roedd cyfran uwch o fenywod na dynion yn ystyried bod ganddynt grefydd (61 y cant o gymharu â 53 y cant), ac roedd cyfran y bobl a oedd yn ystyried bod ganddynt grefydd yn cynyddu yn ôl grŵp oedran. Mae gan y boblogaeth Fwslimaidd broffil oedran iau na'r mwyafrif o grefyddau eraill yng Nghymru.
- Barnwyd bod crefydd yn ffactor ysgogol mewn 6 y cant o droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2017-18; cofnodwyd cyfanswm o 198 o droseddau casineb ar sail crefydd yng Nghymru yn 2017-18, sy'n uwch na'r 123 a gofnodwyd yn 2016-17.
- Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer y rheini sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion neu yn ddigrefydd yn debyg; ymysg Mwslimiaid mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer menywod (37 y cant yn 2018-19) tua hanner yr hyn y mae ar gyfer dynion (74 y cant).

4.7 Dosbarthiad oedran yn ôl crefydd, Cyfrifiad 2011



Ffynhonnell: Crefydd yn ôl mesur iechyd, oedran a rhyw: StatsCymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Cyfeiriadedd rhywiol: Mae'r niferoedd sy'n dewis ystyried eu hunain yn lesbiaidd, hoyw neu'n ddeurywiol, neu sy'n dewis peidio ag ystyried eu hunain yn strêr yn cynyddu, ac mae priodasau o'r un rhyw bellach yn fwy cyffredin na phartneriaethau sifil.


- Yn 2017, roedd 95 y cant o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn heterorywiol, ac roedd 1.7 y cant yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol. Mae cyfran uwch o'r grŵp oedran 16 i 45 oed yn ystyried eu hunain yn hoyw/lesbiaidd neu yn ddeurywiol na grwpiau oedran eraill.
- Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r gyfran o'r boblogaeth yng Nghymru sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, hoyw neu'n ddeurywiol wedi cynyddu o 1.3 y cant.
- Ers 2014, pan ddaeth priodasau o'r un rhyw yn gyfreithiol, mae nifer y priodasau o'r un rhyw wedi cynyddu (i 372 yn 2016), tra bo nifer y partneriaethau sifil wedi lleihau'n sylweddol (32 partneriaeth sifil yn 2017).
- Yn 2018-19 roedd cyfran is o oedolion a ystyriodd eu hunain yn heterorywiol mewn amddifadedd materol (13 y cant) o gymharu â'r rheini nad oeddent yn ystyried eu hunain yn heterorywiol (20 y cant).
- Yn 2017-18, cofnodwyd 670 o droseddau casineb gan heddlu yng Nghymru yr ystyriwyd mai cyfeiriadedd rhywiol oedd y ffactor ysgogol (i fyny o 461 o droseddau a gofnodwyd yn 2016-17). Barnwyd bod cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor ysgogol mewn un o bob pum trosedd gasineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2017-18.
- Yn ôl gwaith ymchwil Stonewall Cymru, mae bron un o bob pedwar unigolyn lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) (23 y cant) yn dweud eu bod wedi dioddef o achos neu drosedd gasineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth o ran rhywedd yn ystod y 12 mis diwethaf, a bod nifer ohonynt heb roi gwybod i'r heddlu am yr achos.
- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018-19) yn dangos bod y rheini nad ydynt yn ystyried eu hunain yn heterorywiol yn teimlo'n llai diogel yn eu cymunedau na'r rheini sydd yn ystyried eu bod yn heterorywiol.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Anabledd: Ar y cyfan, mae'r effeithiau canlyniadol ar blant ag anghenion addysgol arbennig yn gwella.

- Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018-19) yn dangos bod bodlonrwydd â bywyd yn gyffredinol is ar gyfer pobl ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor (eu sgôr gymedrig oedd 7.2) na'r rhai heb gyflyrau o'r fath (8.1).
- Mae deilliannau addysgol disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Barnwyd bod anabledd yn ffactor ysgogol mewn 9 y cant o droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2017-18, sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- O ran y boblogaeth oedran gweithio, nid oedd gan gyfran uwch o bobl anabl gymwysterau o gymharu â'r rheini nad oeddent yn anabl (yn 2018, 17 y cant o gymharu â 6 y cant yn y drefn honno), ac roedd gan gyfran is gymwysterau ar lefel 4 (lefel gradd) neu'n uwch (28 y cant o gymharu â 41 y cant yn y drefn honno).

4.8 Disgyblion â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Anabledd (parhad): Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yn cynyddu ond mae'r bwlch cyflog mewn perthynas ag anabledd yn parhau, ac mae aelwydydd sy'n cynnwys rhywun anabl yn fwy tebygol o gael trafferthion ariannol o hyd.

- Yn ystod y cyfnod diwethaf (2015-16 i 2017-18), roedd 39 y cant o blant a oedd yn byw mewn cartref lle roedd rhywun ag anabledd mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 24 y cant mewn cartrefi lle nad oedd neb yn anabl.
- Yn yr un modd, roedd 32 y cant o oedolion oedran gweithio a oedd yn byw mewn cartref lle roedd rhywun ag anabledd mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 19 y cant o'r rheini a oedd yn byw mewn cartref lle nad oedd neb yn anabl.
- Fel yw'r achos mewn blynyddoedd blaenorol, yn 2018-19, roedd un o bob pum person â salwch cyfyngol hirdymor neu anabledd yn byw ar aelwyd mewn amddifadedd materol o gymharu ag un o bob deg o'r rheini nad oeddent yn anabl.
- Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, roedd y gyfradd cyflogaeth ymysg pobl anabl rhwng 16 a 64 oed yn 48 y cant, a'r gyfradd ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl yn 80 y cant. Mae'r bwlch cyflogaeth mewn perthynas ag anabledd ar gyfer 2019, sef 32 pwynt canran, wedi'i leihau o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf pan oedd y bwlch tua 35 pwynt canran.
- Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi bod enillion canolrifol fesul awr yn uwch yn 2016/17 ar gyfer gweithwyr nad oeddent yn anabl (£10.67) na gweithwyr anabl (£9.72), bwlch cyflog anabledd o 8.9 y cant.

4.9 Bwlch cyflogaeth anabledd, blwyddyn yn dod i ben Mawrth 31 2014 i'r flwyddyn yn dod i ben Mawrth 31 2019




Ffynhonnell: StatsCymru

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Statws priodasol: Mae bod yn briod yn gysylltiedig a mwy o fodlonrwydd â bywyd a llai tebygolrwydd o wynebu amddifadedd materol.

- Cafwyd cyfanswm o 13,553 priodas yng Nghymru yn 2016. Ymysg y rhain, roedd 13,181 (97.3 y cant) ohonynt yn briodasau cyplau un rhyw a'r rhyw arall, ac roedd 372 (2.7 y cant) ohonynt yn briodasau cyplau o'r un rhyw. Mae nifer y partneriaethau sifil yn 2017 yn dal i fod yn isel (32 partneriaeth) o gymharu â'r lefelau yn 2013.
- Yn 2018-19, roedd 21 y cant o oedolion a oedd wedi ysgaru a 33 y cant o'r rheini a oedd wedi gwahanu (ond yn dal yn briod yn gyfreithlon) yn wynebu amddifadedd materol o gymharu ag 8 y cant o'r rheini a oedd yn briod neu'n weddw. Roedd dros ddau o bob pump (42 y cant) o'r rheini sy'n rhieni sengl yn wynebu amddifadedd materol.
- Roedd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018-19 wedi cadarnhau cyfran uwch o'r boblogaeth briod yn nodi 'bodlonrwydd uchel â bywyd', gan deimlo bod y pethau y maent yn ei wneud mewn bywyd yn werthfawr, a lefelau uchel o hapusrwydd o gymharu â'r rheini sydd wedi gwahanu, wedi ysgaru, yn weddw neu sydd erioed wedi priodi. Yn 2017-18, y rheini a oedd wedi gwahanu neu wedi ysgaru oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig.

4.10 Bodlonrwydd â bywyd yn ôl statws priodasol, 2018-19



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Statws priodasol (parhad): Mae aelwydydd un rhiant a'r rheini sy'n sengl yn parhau i wynebu heriau. Maent yn fwy tebygol o gael eu bygwth â digartrefedd neu wynebu amddifadedd materol.

- Aelwydydd un rhiant ac aelwydydd â phensiynwyr sengl oedd yr aelwydydd lleiaf tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau ar ôl iddi dywyllu yn 2018-19.
- Mae perthynas yn chwalu yn un o'r prif resymau sy'n cael ei grybwyll am gartrefi'n cael eu bygwth â digartrefedd.
- O'r bobl hynny y bernir eu bod yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol, mae ychydig dros hanner yn byw mewn cartrefi un person ac mae traean yn unig rieni gyda phlant dibynnol.
- O'r rheini rhwng 16 a 64 oed, roedd gan y rheini a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil y cyfraddau cyflogaeth uchaf (80 y cant) o gymharu â'r rheini a oedd wedi gwahanu neu wedi ysgaru (70 y cant), yn sengl (67 y cant), yn weddw (60 y cant).
- Yn gyffredinol, mae cyfraddau cyflogaeth yn is i fenywod nag ydynt i ddynion, a dyna'r sefyllfa yn arbennig i ferched sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil; y gyfradd cyflogaeth i ddynion priod oedd 87 y cant o gymharu â menywod priod a oedd yn 74 y cant yn 2018-19.

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Darllen pellach:

Roedd adroddiad llawn, [Llesiant Cymru 2018](#) yn cynnwys dadansoddiad pellach o'r canlynol:

- Unigrwydd ac ymdeimlad o gymuned
- Cymryd rhan mewn cynrychiolaeth gyhoeddus
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli neu mewn gweithgareddau celfyddydol neu chwaraeon
- Disgwyliad oes a ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd
- Datblygiad a chyrhaeddiad addysgol plant
- Pobl sy'n ceisio cael cymorth i gael cartref
- Y tebygolrwydd o ddioddef trosedd
- Troseddu treisgar, ymosodiadau rhywiol a cham-drin domestig

Mae'r adroddiad yma yn crybwyll ystod eang o bynciau, ac o ganlyniad, dim ond mesurau cynnydd lefel uchel y mae modd eu crybwyll. Mae dadansoddiad mwy manwl ar sawl un o'r pynciau yma ar gael drwy'r cyfrwng o ddatganiadau ystadegol a gyhoeddir gan [Lywodraeth Cymru](#), y [SYG](#) a chynhyrchwyr ystadegau eraill.

Gweler hefyd:

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018). [A yw Cymru'n Decach?](#)
- Hewitt G, et al (2019). [Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol 2017/18 ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019). [Y Ganolfan Cydraddoldeb a Chynhwysiant](#)
- Stonewall Cymru (2017). [Adroddiad Ysgol Cymru](#)
- Stonewall Cymru (2017). [LHDT yng Nghymru - Troseddau Casineb a Gwahaniaethu](#)
- Stonewall Cymru (2017). [LHDT yng Nghymru - Adroddiad Gwaith](#)
- Llywodraeth Cymru (2017). [Adolygiad o'r Dystiolaeth yn ymwneud ag Anhydraddoldeb yng Nghymru](#)

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Ffynonellau Data

Cafodd y ffynonellau data canlynol eu defnyddio yn y naratif hwn:

[Ystadegau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth \(poblogaethau\)](#)

Data o [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) ar fodlonrwydd â bywyd, ymdeimlad o gymuned, teimlo'n ddiogel, amddifadedd materol

[Troseddau casineb o dablau data agored ar Droseddau a Gofnodir gan yr Heddlu](#)

Tlodi

[Tlodi incwm cymharol,](#)

[Arolwg Cenedlaethol Cymru \(amddifadedd materol\)](#)

[Tlodi Tanwydd](#)

Addysg

[Asesiadau Dechreuol o Ddisgyblion](#)

[Cronfa Ddata Arholiadau Cymru](#)

Y farchnad lafur

[Arolwg o'r Llafurlu](#)

[Cyfranogi yn y Farchnad Lafur](#)

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

[Arolwg Blynyddol o Orlau ac Enillion - ASHE](#)

Data ar ddigartrefedd

[Tablau data agored statudol ar Ddigartrefedd a Chysgu Allan](#)

Penodiadau cyhoeddus

[Adroddiad Blynyddol 17/18](#)

[Gwybodaeth Reoli](#)

[Priodasau yng Nghymru](#)

[Nifer yr Achosion o Droseddu](#)

Cymru o Gymunedau Cydllynus

Awdur: Dr Steven Marshall


Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.



Cymru o Gymunedau Cydlynus

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Dim ond yn ddiweddar y mae llawer o'r dangosyddion ar gyfer cymunedau cydlynus wedi cael eu casglu ac felly mae'n anodd gwneud sylwadau ar newidiadau dros amser.
- Nid yw'r mesurau sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol (gydag ychydig yn fwy na hanner yn cytuno â thair datganiad) a theimlo'n ddiogel (gydag ychydig yn fwy na 70 y cant yn teimlo'n ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd), sydd wedi cael eu casglu ers sawl blwyddyn, wedi newid fawr ddim.
- Bu cynnydd bach mewn cydlyniant cymunedol yn 2018-19 a gostyngiad bach mewn teimlo'n ddiogel, ond mae'n rhy gynnar i ddweud a oes tuedd yn cychwyn.



Mae'r gostyngiad graddol yn parhau o ran teimlad pobl eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol.

- Yn ystod 2018-19, parhaodd y cynnydd yn nifer a chanran yr aelwydydd a oedd wedi troi at eu hawdurdod lleol am gymorth, ac y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref.
- Bu cynnydd o lai nag 1 y cant yn yr amcangyfrif o nifer y bobl oedd yn cysgu allan yng Nghymru, gyda 347 o bobl wedi'u cyfri yn cysgu allan yn mis Hydref 2018.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at y nod yn y tymor hir?


- Mae dadansoddiad manwl wedi'i gynnal ar y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn y nod hwn er mwyn pennu'r ffactorau sy'n ymwneud â gwahaniaethau yn lefel y dangosydd.
- Mae'r dangosyddion yn y bennod hon yn gysylltiedig gan mwyaf ag oedran ac anabledd neu iechyd o ran dimensiynau cydraddoldeb. Pan fydd cysylltiad, mae bod yn hŷn neu mewn iechyd da / ddim yn anabl yn gysylltiedig â ffactorau mwy cadarnhaol y dangosydd. Felly, mae cynnydd tymor hir yn gysylltiedig â gwelliannau o ran iechyd ac amddifadedd/tlodi.
- Mae pob un o'r dangosyddion yn gysylltiedig ag o leiaf un mesur sy'n ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol neu amddifadedd. Mae'r mesurau gwirioneddol yn wahanol ar draws y dangosyddion, ond ym mhob achos mae bod yn well eich byd yn gysylltiedig ag agweddau mwy cadarnhaol y dangosydd. Yr unig eithriad yw bod anweithgarwch economaidd yn gysylltiedig â gwirfoddoli mwy, ond mae hyn yn bennaf oherwydd bod pobl sydd wedi ymddeol yn fwy tebygol o wirfoddoli.
- Mae cysylltiadau rhwng y mesurau gwahanol ar gyfer cymunedau cydlynus, yn enwedig yn achos unigrwydd, sydd â chysylltiad ystadegol arwyddocaol â'r pedwar mesur arall. Gall y cysylltiadau weithio'n hawdd mewn unrhyw gyfeiriad, er enghraifft gallai pobl unig fod yn llai tebygol o wirfoddoli ond hefyd gallai gwirfoddoli helpu i leihau unigrwydd. Ac eithrio unigrwydd, mae gan bob un o'r dangosyddion gysylltiad ag ardal ddaearyddol, hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Fodd bynnag, nid yr un rhannau o Gymru ydynt bob amser.
- Mae pobl yn teimlo bod llawer o gynnydd wedi bod mewn troseddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r darlun a geir o droseddau a gofnodwyd yn fwy cymysg – cofnodwyd cynnydd mewn troseddau treisgar ond mae dwyn a difrod troseddol yn parhau'n sefydlog.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Roedd hanner yr oedolion yn cytuno â phob un o'r tri mesur o gydlyniant cymunedol; mae hyn wedi aros yn weddol ddigyfnewid dros y blynyddoedd diwethaf.

- Yn 2018-19, roedd 52 y cant o bobl yn cytuno â phob un o'r tri datganiad am eu hardal leol sy'n rhan o'r dangosydd cenedlaethol, ac roedd dros 70 y cant yn cytuno ag unrhyw un datganiad.
- Mae'r ffigurau hyn wedi aros yn weddol sefydlog ers iddynt ddechrau cael eu casglu yn 2012, ond bu cynnydd bach ers 2016-17 yn y nifer oedd yn cytuno â phob un o'r tri mesur.
- Nid oes gwahaniaeth ystadegol rhwng dynion a menywod o ran y mesurau unigol nac o ran cytuno â phob un o'r tri datganiad. Ond ymysg menywod, yn bennaf, y cafwyd y cynnydd rhwng 2016-17 a 2018-19.
- Wrth i amddifadedd leihau mewn ardal, mae tuedd glir tuag at fwy o gydlyniant cymunedol.

5.1 Canran y bobl sy'n cytuno â datganiadau am eu hardal leol, 2018-19




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru: Llywodraeth Cymru

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Mae bron i dri chwarter o oedolion yn teimo'n ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd wedi iddi dywyllu.

- Y dangosydd cenedlaethol yw'r ganran o bobl oedd yn cytuno â phedwar datganiad am deimlo'n ddiogel wedi iddi dywyllu: gartref, wrth gerdded yn eu hardal leol, wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu wrth deithio mewn car. Yn 2018-19, roedd 71 y cant o bobl yn teimlo'n ddiogel ym mhob un o'r pedair sefyllfa, gostyngiad bach o'r 73 y cant yn 2016-17.
- Cafodd data am deithio mewn car eu casglu gyntaf yn 2016-17, ond mae'r mesurau eraill yn y dangosydd wedi aros yn sefydlog ar y cyfan ers iddynt gael eu casglu gyntaf yn 2012.
- Mae dynion (83 y cant) yn teimlo'n fwy diogel na menywod (58 y cant).
- Mae tuedd glir tuag at deimlo'n fwy diogel wrth i amddifadedd leihau yn yr ardal, gyda 79 y cant yn teimlo'n ddiogel yn y cwntil lleiaf difreintiedig a 59 y cant yn y cwntil mwyaf difreintiedig.

5.2 Canran y bobl sy'n cytuno â datganiadau am deimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu, 2018-19




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru: Llywodraeth Cymru

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Mae 85 y cant yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw ynddo ac mae 80 y cant yn fodlon â'u gallu i gyrraedd/defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau.

- Ar y cyfan, yn ôl Arolwg Cenedlaethol 2018-19, mae 85 y cant o bobl yn teimlo'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw ynddo; mae hyn yr un fath ag yn 2016-17.
- Roedd 80 y cant o bobl yn fodlon eu bod yn gallu cyrraedd/defnyddio'r gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt.
- Dywedodd llai na 60 y cant o bobl bod gwasanaethau cymunedol fel canolfannau cymunedol, ysgolion uwchradd, llyfrgelloedd a chlybiau ieuencid neu chwaraeon ar gael yn eu hardal leol. I'r gwrthwyneb, dywedodd 80 y cant bod cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus, siopau a thafarndai i gyd ar gael o fewn 15 i 20 munud o gerdded o'u cartref.

5.3 Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau da yn ôl ardal, 2018-19




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Bu gostyngiad graddol yn nifer y rhai sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol.

- Yn 2018-19, roedd 19 y cant o bobl yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau am yr ardal leol.
- Bu gostyngiad graddol ers yr uchafbwynt yn 2012-13 a 2013-14.
- O ran y bobl sydd mewn iechyd da, roedd 20 y cant yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau, ac roedd 16 y cant o'r rhai oedd mewn iechyd gwael yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau.

5.4 Canran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, 2012-13 i 2018-19




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Mae ychydig dros chwarter o oedolion yn gwirfoddoli.

- Dangoswyd bod rhyngweithio cymdeithasol yn llesol i unigolion, a phrofwyd bod gwirfoddoli yn enghraifft o ryngweithio cymdeithasol sy'n fuddiol o ran iechyd a llesiant.
- Yn 2017-18 mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn dangos bod 28 y cant o bobl Cymru yn gwirfoddoli, sef yr un faint ag yn y flwyddyn flaenorol. Gwirfoddoli gydag elusennau a chlybiau chwaraeon oedd y mwyaf cyffredin.
- Mae mwy o fenywod (30 y cant) nag o ddynion (26 y cant) yn gwirfoddoli.

5.5 Canran y bobl sy'n gwirfoddoli yn ôl y math o sefydliad, 2017-18




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Pobl ifanc sy'n teimlo'n fwyaf unig.

- Casglodd yr Arolwg Cenedlaethol ddata gan ddefnyddio graddfa unigrwydd De Jong Gierveld, sy'n ymwneud ag unigrwydd emosiynol a chymdeithasol.
- Yn 2017-18, ym mhob un o'r chwe mesur, gwelwyd bod 16 y cant o bobl Cymru yn unig. Mae amrywiaeth amlwg yng nghanrannau'r bobl sy'n teimlo'n unig ar sail y mesurau unigol.
- Roedd 21 y cant o'r rhai 16-24 oed yn teimlo'n unig, o'i gymharu â 10 y cant o'r rhai 65+ oed.
- Er bod unigrwydd yn uwch ymysg y rhai dan 65 oed yn y rhan fwyaf o'r mesurau, roedd y ganran ar gyfer gweld eisiau cael pobl o'u cwmpas yn uwch ymysg pobl dros 75 oed (26 y cant).

5.6 Canran y bobl sy'n teimlo'n unig, yn ôl rheswm, 2017–18



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru


Cymru o Gymunedau Cydlynus

Roedd gan bron i hanner yr aelwydydd oedd yn wynebu bygythiad digartrefedd blant dibynnol.


- Gwellodd y gyfradd ar gyfer llwyddo i atal digartrefedd i 68 y cant yn 2018-19, er gwaethaf cynnydd yn nifer yr aelwydydd oedd yn wynebu bygythiad o fod yn ddigartref.
- Mewn 2 y cant o'r achosion roedd yr ymgeisydd rhwng 16 ac 17 oed, ac mewn 20 y cant o'r achosion roedd rhwng 18 a 24 oed.
- Roedd 44 y cant o'r holl aelwydydd oedd yn wynebu bygythiad o fod yn ddigartref yn deuluoedd â phlant dibynnol (rhieni sengl a chyplau).
- Ym mis Hydref 2018, amcangyfrifwyd bod 347 o bobl yn cysgu allan yng Nghymru, sef 1 y cant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.
- Yn 2017, amcangyfrifwyd bod 13 o bobl ddigartref yng Nghymru wedi marw.

5.7 Aelwydydd sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd (adran 66) yn ôl nodwedd y prif ymgeisydd, 2018-19

Aelwydydd sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd (adran 66) yn ôl oedran yr ymgeisydd



Aelwydydd sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd (adran 66) yn ôl math o aelwyd




Ffynhonnell: StatsCymru

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Nid yw'r rhan fwyaf o bobl wedi profi trosedd. Fodd bynnag bu cynnydd yn y flwyddyn ddiwethaf yn nifer y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r heddlu ac yng nghanfyddiad pobl o drosedd.

- Mae data diweddaraf Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn dangos bod 53 y cant o bobl Cymru yn credu bod cynnydd mawr wedi bod mewn troseddu yn genedlaethol yn ystod y blyneddau diwethaf (i fyny o 42 y cant y flwyddyn flaenorol).
- Mae'r canrannau'n is yn lleol, ond mae'r rheini wedi codi hefyd; mae 16 y cant yn credu bod cynnydd mawr wedi bod mewn troseddu o'i gymharu ag 11 y cant y flwyddyn flaenorol.
- Mae troseddau y rhoddir gwybod amdanynt i'r heddlu yn cynyddu, ond dylid bod yn ofalus gan fod y dulliau cofnodi wedi gwella a'r ffordd y caiff troseddau eu categorio wedi newid.
- Mae data CSEW yn dangos bod troseddau treisgar yng Nghymru wedi cynyddu i gyfradd o 33.3 y cant am bob 1,000 o oedolion yn y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â 20.9 cyn hynny.
- Cafwyd cynnydd hefyd (24 y cant) yn y troseddau treisgar a gofnodwyd gan yr heddlu, ond dylid bod yn ofalus wrth drin y data oherwydd newidiadau yn y categori stelcian ac aflonyddu.

5.8 Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn ôl 1,000 o'r Boblogaeth



Ffynhonnell: Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Darllen pellach:

Roedd dadansoddiad pellach o ddata Arolwg Cenedlaethol 2016-17 yn cynnwys dadansoddiad atchwel i dynnu sylw at ffactorau arwyddocaol ar gyfer y gwahanol ddangosyddion:

[Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ardal leol a'r gymuned \(Ebrill 2016 i Mawrth 2017\)](#)

[Arolwg Cenedlaethol Cymru: Gwirfoddoli a gofalu \(Ebrill 2016 i Mawrth 2017\)](#)

[Arolwg Cenedlaethol Cymru: Unigrwydd \(Ebrill 2016 i Mawrth 2017\)](#)

[Arolwg Cenedlaethol Cymru: Teimlo'n ddiogel mewn ardal leol \(Ebrill 2013 i Mawrth 2014\)](#)

Gwaith ymchwil a dadansoddi arall a allai fod o ddiddordeb:

[Volunteering is good for your health](#)

[Mesur eich effaith ar unigrwydd yn hwyrach mewn oes](#)

[Gweithgarwch cymdeithasol yn hwyrach mewn oes a dirywiad gwybyddol mewn henaint](#)

[Unigrwydd yn y boblogaeth gyffredinol: cyffredinrwydd, penderfynyddion, a chysylltiadau â iechyd meddyliol](#)

[Adroddiad data etholiadol 2017 Cymru](#)

Ffynonellau'r data

Dyma'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y naratif hwn:

Data am ddigartrefedd:

[Tablau data agored statudol ar ddigartrefedd a chysgu allan](#)

[Amcangyfrifon o farwolaethau ymysg pobl ddigartref, wedi'u cyhoeddi gan ONS](#)

Data am droseddau:

[Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr: data ynghylch canfyddiad](#)

[Daw data CSEW ynghylch troseddau treisgar o Tablau data agored ar yr achosion o droseddau personol](#)

[Tablau agored ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu](#)

[Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu 2018-19 \(tabl P1\)](#)

[Caiff cyfraddau'r troseddau a gofnodir gan yr heddlu eu cyfrifo gan ddefnyddio](#)

[Amcangyfrifon Canol Blwyddyn](#)

Daw pob data arall o Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Awdur: Glyn Jones

Creu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn chwaraeon ac mewn gweithgareddau hamdden.



Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Bu cynnydd yn nifer y plant a fynychodd ddigwyddiadau celfyddydol yn 2018, er bod y niferoedd sy'n cymryd rhan yn parhau ar lefel debyg. Mae'r gyfradd fynychu ymysg plant ar ei lefel uchaf erioed.
- Yn 2018-19, roedd 73 y cant o oedolion wedi mynychu mwy nag un digwyddiad celfyddydol yn y 12 mis diwethaf.
- Y rhwystr pennaf i oedolion rhag mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol yw diffyg amser.
- Dim newid yn nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn 2018 o gymharu ag arolwg 2015, gydag ychydig o dan hanner o'r plant (48 y cant) yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos.
- Cafodd 20 y cant o'r henebion rhestredig a aseswyd yn ystod y flwyddyn eu dynodi'n rhai mewn perygl ac roedd cyflwr 46 y cant yn gwaethygu o'i gymharu â'u hasesiad blaenorol. Roedd cyflwr yr adeiladau rhestredig a aseswyd yn debyg i'r asesiadau blyneddodde cynt.
- Er bod adroddiadau arolygon yn nodi cynnydd yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg, mae niferoedd y disgyblion ysgol sy'n siarad Cymraeg gartref yn sefydlog.



Dim newid yn nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, gyda 32 y cant yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos.



Mae data arolygon yn awgrymu bod cynnydd yn nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl, ond ni fydd diweddariad ar ddata'r Cyfrifiad tan 2022.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at y nod yn y tymor hir?

- Gan mai dim ond unwaith y mae'r dangosydd cenedlaethol ar y celfyddydau a diwylliant wedi'i gasglu a bod y cwestiynau wedi bod yn amrywiol fel arall, mae'n anodd rhoi asesiad cyffredinol o'r cynnydd diweddar o ran mynychu a chymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol. Mae gwahaniaethau eang, gan ddibynnu ar rywedd, cefndir economaidd-gymdeithasol a nodweddion gwarchodedig.
- Mae plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol wedi bod yn cynyddu yn weddol gyson ers 2010, er gwaethaf gostyngiad yn 2016, ond gyda gwahaniaethau tebyg yn ôl rhywedd a chefnidir economaidd-gymdeithasol. Mae'r gwahaniaethau o ran rhywedd wedi bod yn tyfu yn y blynyddoedd diwethaf.
- Roedd y newid i'r Arolwg Cenedlaethol yn golygu bod diffyg dilyniant o ran monitro nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dros y tymor hir. Mae nifer y disgyblion ysgol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon wedi aros ar yr un lefel ers 2015, yn dilyn cynnydd yn yr arolwg blaenorol.
- Gwelwyd gostyngiad yn nifer a chanran y bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011, ond mae data arolygon ers hynny wedi awgrymu cynnydd yn y nifer sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl. Mae'r ganran sy'n defnyddio'r iaith bob dydd wedi bod yn weddol sefydlog.
- Er mai ymhlith plant y ceir y ganran o siaradwyr Cymraeg, ni chaiff hyn ei drosglwyddo i'r nifer sy'n siarad yr iaith gartref ac mae'r gostyngiad pan maent yn gadael addysg orfodol yn parhau.



Mae dros hanner amgueddfeydd ac archifau Cymru wedi cyrraedd safonau achrededig y Deyrnas Unedig.



Roedd cyflwr 38 y cant o henebion rhestredig yn gwaethygu yn ôl y rhaglen archwilo 10 mlynedd.


Mae 9 y cant o adeiladau rhestredig ac 14 y cant o henebion rhestredig wedi'u hasesu fel rhai sydd mewn perygl.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae gwahaniaethau ar draws grwpiau o ran y nifer sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau, a diffyg amser yw'r rhwystr pennaf.

- Gall cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon gael effaith gadarnhaol ar lesiant meddyliol ac iechyd corfforol.
- Yn 2017-18, nodwyd yn y dangosydd cenedlaethol bod 75 y cant o oedolion 16 mlwydd oed neu hŷn wedi mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiad celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy.
- Ni chafodd y dangosydd cenedlaethol ei gasglu yn Arolwg Cenedlaethol 2018-19, ond gofynnwyd cwestiwn culach yn yr arolwg a oedd yn sôn am ddigwyddiadau celfyddydol yn unig. Dangosodd hyn bod 73 y cant wedi mynychu un neu ragor o ddigwyddiad celfyddydol dros y 12 mis diwethaf. Nid oes modd cymharu'n uniongyrchol ag arolygon eraill. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn llunio dadansoddiad manylach o ganlyniadau 2018-19 dros yr ychydig fisoedd nesaf.
- Dangosodd data ar gyfer 2018-19 fod gan bobl resymau amrywiol dros beidio â mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, ond diffyg amser oedd y rheswm a nodwyd fwyaf.
- Mae oedolion iau yn fwy tebygol o fod wedi mynychu neu gymryd rhan na grwpiau oedran hŷn. Mae menywod ychydig yn fwy tebygol o gymryd rhan yn rheolaidd na dynion, ond nid oes llawer iawn o wahaniaeth o ran lefelau mynychu.

6.1 Ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, 2018-19




Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru: arolwg omnibws y plant

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ond ceir gwahaniaethau yn ôl rhywedd a chefnidir economaidd-gymdeithasol.

- Dangosodd data ar gyfer 2018 fod 89 y cant o blant a phobl ifanc 7-18 oed wedi mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn. Yn gyffredinol, mae nifer y plant sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol wedi bod yn cynyddu dros y degawd diwethaf.
- Mae'r ffigur ar gyfer 2018 2.8 pwynt canran yn uwch nag yn 2017, ac mae dros 10 pwynt canran yn uwch nag yn 2010.
- Mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol wedi bod yn fwy sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r ffigurau'n dangos o hyd bod 87 y cant wedi cymryd rhan unwaith neu fwy y flwyddyn.
- Fel gydag oedolion, merched ifanc a phlant o'r cefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch oedd fwyaf tebygol o fynd i ddigwyddiadau celfyddydol, a chymryd rhan ynddynt. Cynyddodd y bwlch rhwng merched a bechgyn yn y flwyddyn ddiwethaf, gan barhau â thueddiadau diweddar.

6.2 Presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith neu fwy y flwyddyn ymysg y rhai 7 i 18 mlwydd oed, 2010 i 2018




Ffynhonnell: Cyngor celfyddydau Cymru, Arolwg omnibws y plant

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae 32 y cant o oedolion a 48 y cant o blant yn nodi eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd (deirgwaith neu fwy yr wythnos). Nid yw'r lefelau hyn wedi newid ers arolygon blaenorol.

- Nid oedd lefel cyfranogiad mewn chwaraeon wedi newid yn ôl y data diweddaraf. Ar gyfer oedolion, roedd hyn o'i gymharu â 2017-18, ac i blant fe wnaed cymhariaeth â 2015.
- Yn 2017-18 a 2018-19, cymerodd 32 y cant o oedolion ran mewn chwaraeon deirgwaith yr wythnos.
- Nododd 41 y cant o oedolion nad oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon na gweithgarwch corfforol, ac nid oedd y ffigur hwnnw wedi newid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Dynion a grwpiau oedran iau oedd fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.
- Dangosodd yr arolwg Chwaraeon mewn Ysgolion diweddaraf yn 2018 fod 48 y cant o ddisgyblion Blynnyddoedd 3 i 11 yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith yr wythnos. Ni welwyd unrhyw newid ers 2015, yn dilyn cynnydd mawr o 2013.

6.3 Canran yr oedolion a'r plant sy'n cyfranogi mewn chwaraeon tair gwaith yr wythnos neu fwy



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


Ffynhonnell: Arolwg ar Chwaraeon Ysgol

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae data arolygon ers y Cyfrifiad wedi awgrymu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, er nad yw'r ganran sy'n siarad yr iaith bob dydd wedi cynyddu.

- Yn ôl y Cyfrifiad diwethaf, mae 19 y cant o oedolion yn gallu siarad Cymraeg. Gan mai dim ond unwaith bob deg mlynedd y caiff y Cyfrifiad ei gynnal, rydym yn defnyddio arolygon i edrych ar dueddiadau ers 2011, er na ellir cymharu'r data â'r Cyfrifiad gan fod pobl yn fwy tebygol o nodi eu bod yn siarad Cymraeg mewn arolygon.
- Yn 2018-19, bu cynnydd pellach yn y ganran a ddywedodd mewn arolygon bod ganddynt rywffaint o allu o ran y Gymraeg. Ystyrir bod y cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn bennaf ymysg y pobl nad ydynt yn rhugl: yn yr Arolwg Cenedlaethol mae'r ganran hon wedi cynyddu o 14 y cant yn 2014-15 i 22 y cant yn 2018-19.
- Yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol, 11 y cant o bobl oedd yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau ac yn siarad yr iaith bob dydd yn 2018-19, sy'n debyg i'r lefel sydd wedi'i gweld yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- Dangosodd data newydd ar gyfer 2018-19 fod 12 y cant o'r oedolion a aeth i ddigwyddiad celfyddydol neu a ymwelodd ag amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dweud bod o leiaf un o'r rhain wedi bod drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.4 Y Gallu yn y Gymraeg a Nodwyd, 2012-13 i 2018-19




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Nodir mai plant yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg, ond yn ôl rhieni nid yw hyn yn arwain at gynnydd yn y ganran sy'n siarad yr iaith gartref.

- Plant yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o gael eu cofnodi fel siaradwyr Cymraeg yn ôl y Cyfrifiad a'r arolygon.
- Dangosodd gwaith dadansoddi pellach eleni y gellir priodoli traean o'r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ers 2008 i blant a phobl ifanc 3-15 mlwydd oed.
- Fodd bynnag, mae canran y plant y cofnodir drwy'r Cyfrifiad Ysgolion eu bod yn siarad Cymraeg gartref wedi aros ar lefel debyg i'r blynyddoedd blaenorol (ychydig dros ddeg y cant).

6.5 Canran y rhai 5 oed a throsodd mewn ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n siarad Cymraeg gartref, 2006/07 to 2018/19




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Yn ôl eu hasesiad diwethaf, roedd cyflwr 38 y cant o henebion rhestredig yn gwaethygu, ac roedd 14 y cant "mewn perygl".

- Roedd 37 y cant o oedolion wedi ymweld ag amgueddfa yn 2018-19, sydd ychydig yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol.
- O'r 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru, mae 75 y cant mewn cyflwr sefydlog neu'n gwella, ac ystyrir bod 9 y cant mewn perygl. Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd diwethaf.
- Ar ôl y nawfed flwyddyn o'r rhaglen ddeng mlynedd o archwilio henebion rhestredig, nodir bod 62 y cant yn sefydlog neu'n gwella - sy'n golygu bod cyflwr 38 y cant yn gwaethygu. Aseswyd bod 14 y cant "mewn perygl".
- Roedd cyflwr yr henebion a aseswyd yn 2018-19 yn fwy tebygol o fod yn gwaethygu neu mewn perygl na'r rheini a oedd wedi'u hasesu cyn hynny (20 y cant mewn perygl a 46 y cant yn gwaethygu).



Mae dros hanner amgueddfeydd ac archifau Cymru wedi cyrraedd safonau achrededig y Deyrnas Unedig.



Mae 14 y cant o henebion a 9 y cant o adeiladau rhestredig wedi'u hasesu fel rhai sydd "mewn perygl"

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Darllen pellach:

Roedd adroddiad llawn, [Llesiant Cymru 2018](#) yn cynnwys dadansoddiad pellach o'r canlynol:

- Y pethau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol
- Y gwahaniaethau rhwng grwpiau poblogaeth ac economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â chymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon
- Tueddiadau yn y mathau o weithgareddau a wneir
- Cysylltiadau rhwng y Gymraeg a digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol

Mae'r adroddiad yma yn crybwyll ystod eang o bynciau, ac o ganlyniad, dim ond mesurau cynnydd lefel uchel y mae modd eu crybwyll. Mae dadansoddiad mwy manwl ar sawl un o'r pynciau yma ar gael drwy'r cyfrwng o ddatganiadau ystadegol a gyhoeddir gan [Lywodraeth Cymru](#), y [SYG](#) a chynhyrchwyr ystadegau eraill.

Mae [Cyngor Celfyddydau Cymru](#) a [Chwaraeon Cymru](#) yn llunio adroddiadau manwl ar gyfranogiad mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon gan ddefnyddio ymchwil ac arolygon amrywiol. Mae hyn yn cynnwys Arolwg Omnibws y Plant a'r [Arolwg ar Chwaraeon Ysgol](#).

Hyder yn y Gymraeg ac agweddau tuag at yr iaith (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018
Canlyniadau'r Gymraeg: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2001 i 2018

Ffynonellau'r data

Defnyddiwyd y ffynonellau data canlynol yn y naratif hwn:

Presenoldeb a chyfranogiad yn y Celfyddydau
[Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)
[Arolwg Omnibws plant](#)

Cyfranogiad mewn chwaraeon
[Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)
[Arolwg Chwaraeon Cymru 2018](#)

Y Gymraeg:
[Cyfrifiad 2011](#)
[Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)
[Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#)
[Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion](#)

Amgueddfeydd ac archifau:
Data Llywodraeth Cymru a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd cenedlaethol ac [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)
Data Cadw a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd cenedlaethol

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Awdur: Rachel Dolman




Y nod: Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae Nod 7 yn cydnabod y gall yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau bod Cymru'n genedl gynaliadwy, mewn byd sy'n rhyng-gysylltiedig, gael effeithiau cadarnhaol a negyddol y tu allan i Gymru.



Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Beth ydym ni wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- Mae 74 y cant o oedolion yn ailddefnyddio eu bagiau eu hunain i siopa bwyd, bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.
- Gwelwyd gostyngiad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2017, i lawr 13 y cant yn gyffredinol. Roedd israddio gweithrediadau yng ngorsaf bŵer Aberddawan wedi cyfrannu'n enfawr at hyn.
- Mae'r atgyfeiriadau o ran dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol, gyda 251 wedi'u hatgyfeirio yn 2018, er ei bod yn bosibl bod cynnydd eleni oherwydd gwelliant mewn casglu data. Hefyd nid oes modd datgysylltu cofnodi gwell a chynnydd gwirioneddol yn nifer yr achosion.
- Yn 2017/18, o fewn Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, roedd 28,000 o ymgeiswyr ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghyfnod Allweddol 4 a thros 14,000 ar lefel Safon Uwch.
- Roedd nifer y babanod a gafodd eu brechu yn parhau yn uchel, ond mae wedi gostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd nifer y plant sy'n cael y brechlynnau '6 mewn 1' a'r niwmococol cyfun yn parhau i fod yn uwch na 95 y cant mewn plant blwydd oed. Fodd bynnag, roedd y nifer a gafodd y brechiad MMR ychydig o dan 95 y cant ar gyfer y dos cyntaf yn ddwyflwydd oed.
- Gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer y ceiswyr lloches a oedd yn derbyn cymorth ar ddiwedd mis Mawrth 2019, er bod ffigurau wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers dechrau'r degawd. Hyd at fis Mawrth 2019, mae cyfanswm o 1,072 o ffoaduriaid wedi eu hadsefydlu yng Nghymru o dan y Cynllun Adsefydlu Personau Bregus.



Mae 76 y cant o oedolion yn poeni am y newid yn yr hinsawdd, ac mae 51 y cant o oedolion wedi defnyddio llai o ynni yn y cartref er mwyn helpu i warchod yr amgylchedd neu fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.



Roedd dros 21,000 o fyfyrwyr rhyngwladol o dros 160 o wledydd mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2017/18.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Y Cyd-destun Byd-eang - Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Ar 1 Ionawr 2016, dechreuodd y byd roi Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 ar waith. Cynllun gweithredu trawsffurfiol yw'r agenda hon, sy'n seiliedig ar 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDCau) – i fynd i'r afael â heriau brys byd-eang dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r NDCau yn pwysleisio agenda gyffredinol sy'n gofyn i aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig - yn gyfoethog ac yn dlawd - gymryd camau i gefnogi datblygu cynaliadwy.

Mae nifer o ffactorau sy'n pennu a yw Cymru'n dod yn genedl sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'i nodau llesiant sy'n benodol i Gymru, yn darparu fframwaith i gyfraniad Cymru at sicrhau Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. At ei gilydd, mae'r chwe adroddiad naratif arall, wrth asesu ein cynnydd tuag at y nodau llesiant cenedlaethol, yn pennu ein cyfraniad cyffredinol fel cenedl tuag at yr agenda datblygu cynaliadwy rhyngwladol. Er enghraifft, rydym yn adrodd mewn man arall ar dueddiadau cenedlaethol mewn materion fel tlodi, anghydraddoldebau a gwaith addas. Mae'r naratif hwn ar "Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang" felly'n canolbwyntio ar feysydd sydd fwyaf perthnasol i'r agenda fyd-eang yn arbennig.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Mae'r 46 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Cymru hefyd wedi'u mapio at ddibenion dangosol yn erbyn y 17 Nod Datblygu Cynaliadwy i'ch helpu i ganfod eich ffordd rhwng y cynnydd yma yng Nghymru, a'r cysylltiad â phob un o'r NDCau.

YSTADEGAU

Dangosyddion cenedlaethol: mapio i'r Nodau Llesiant a Nodau Datblygu Cynaliadwy CU: offeryn rhyngweithiol

I ddefnyddio'r offeryn, gallwch ddewis un neu fwy o'r Nodau Llesiant neu Nodau'r CU a bydd yn dangos y dangosyddion sydd yn mapio i'ch dewisiadau.

Cyhoeddwyd 25 Medi 2017
gynnal:

Dangosyddion Cenedlaethol - Mapio i Lies a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Bydd sawl dangosydd cenedlaethol yn helpu i adrodd stori am gynnydd yng Nghymru yn erbyn rwyngwladol am o'r Nodau Llesiant neu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (CU). I helpu chi fynd i'r afael â'r cysylltiadau hyn rydym wedi datblygu'r offeryn rhyngweithiol hwn.

I ddefnyddio'r offeryn, gallwch ddewis un neu fwy o'r Nodau Llesiant neu Nodau'r CU a bydd yn dangos y dangosyddion sydd yn mapio i'ch dewisiadau. Nid yw Nodau'r CU a'r Nodau Llesiant yn mapio at ei gilydd felly pan mae nod yn diffannu mae hyn oherwydd yr hidlwr a ddefnyddiwyd. Yn y tabl o ddangosyddion mae dolen ar yr ochr dde i agor y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Dangosydd Cenedlaethol hwnnw.

Nodau Llesiant



Nodau Datblygu Cynaliadwy UN



Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Rhif	Dangosydd	Dolen
1	Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g	Dolen
2	Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus	Dolen
3	Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymdygiad iach o ran eu ffordd o fyw	Dolen
4	Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer	Dolen

Noder: Daw rhywfaint o'r naratif o'r Dangosyddion Cenedlaethol ac ystadegau swyddogol, ond mae rhywfaint o'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn ddata cyd-destunol ac yn defnyddio data neu ddatganiadau ffeithiol sy'n berthnasol i bolisiâu neu raglenni penodol, os ydym wedi ystyried ei fod yn berthnasol i'r naratif cyffredinol. Ni chasglwyd y data o ffynonellau ystadegau swyddogol, ac er eu bod yn cael eu hadrodd yma i roi cyd-destun, nid oes modd i ni ddarparu sicrwydd am ansawdd y data. Fodd bynnag, ble y bo'n bosibl, mae rhagor o wybodaeth am y data i'w gael yn i'w gael yn Adroddiad Ansawdd y Dangosyddion Cenedlaethol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddyblygu, gyda detholiadau o dudalennau nodau eraill.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Mae pobl yng Nghymru yn poeni am y newid yn yr hinsawdd.

- Yn 2018-19, roedd 76 y cant o oedolion yn poeni am y newid yn yr hinsawdd, sy'n gynnwys o'i gymharu â 67 y cant yn 2016-17.
- Roedd y mwyafrif helaeth o'r rheini a oedd yn credu bod hinsawdd y byd yn newid yn credu mai gweithgarwch pobl oedd yn rhannol, neu'n bennaf gyfrifol am hynny (95 y cant).
- Er mwyn helpu i warchod yr amgylchedd, dywedodd 51 y cant o oedolion eu bod wedi defnyddio llai o ynni yn y cartref, a dywedodd 33 y cant eu bod wedi dechrau defnyddio car yn llai aml. Mae'r ddau ffigur hyn wedi cynyddu o'u cymharu â 2016-17. Fodd bynnag, dim ond 6 y cant a ddywedodd eu bod wedi mynd ati i wirfoddoli i helpu i warchod yr amgylchedd.



Roedd 76 y cant yn poeni am newid yn yr hinsawdd.




Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng ers y 1990au, er gwaethaf rhai cyfnodau o gynnydd

- Mae allyriadau yng Nghymru wedi gostwng o chwarter ers 1990, a hynny yn sgil arbedion effeithlonrwydd wrth gynhyrchu ynni, nwy naturiol yn disodli glo, y diwydiant cemegol yn lleihau a newidiadau mewn allbwn gweithgynhyrchu.
- Daw tua thraean o allyriadau o gyflenwad ynni. Gall yr allyriadau o'r sector hwn fod yn anwadal - gwelwyd gostyngiad o 29 y cant yn 2017, yn bennaf yn sgil israddio gweithrediadau yng ngorsaf bŵer Aberddawan. Cyfrannodd hyn yn sylweddol at y gostyngiad o 13 y cant mewn allyriadau ar y cyfan y flwyddyn honno.
- Mae'n bwysig deall yr allyriadau a ddaw yn sgil nwyddau a ddefnyddir yng Nghymru, hyd yn oed os cânt eu cynhyrchu yn rhywle arall. Nid yw hyn yn rhan o'r amcangyfrifon allyriadau hyn, ond byddant yn cael eu cynhyrchu erbyn 2022 ar gyfer cyfnod cyllideb garbon gyntaf Cymru.

7.1 Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl blwyddyn



Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Mae ein hól troed ecolegol yn dangos bod ein hadnoddau naturiol allweddol yn cael eu dihysbyddu'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu.

- Cafodd ôl troed ecolegol diwethaf Cymru ei gyfrifo yn 2011 ac roedd yn 10.05 miliwn hectar byd-eang. Yn fras, mae hyn tua 5 gwaith maint Cymru ac yn gyfystyr â 3.28 hectar byd-eang i bob person yng Nghymru.
- Pe byddai pawb yn y byd yn defnyddio'r un faint â phreswlydd cyffredin yng Nghymru, amcangyfrifir y byddai angen ychydig dros 2.5 planed fel y ddaear i ddarparu'r adnoddau a lleihau effaith y gwastraff. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer y Deyrnas Unedig, sef 2.7 daear.



Mae ôl troed ecolegol unrhyw wlad yn gwasanaethu fel dangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Mae tri chwarter o oedolion yn ailddefnyddio bagiau i siopa bwyd bob tro neu'r rhan fwyaf o'r amser.

Mae gan Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig "Defnyddio a chynhyrchu'n gyfrifol" darged ar gyfer lleihau'n sylweddol y gwastraff a gynhyrchir, drwy atal, lleihau, ailgylchu ac ailddefnyddio.

Mae data 2018-19 ar gyfer Cymru yn dangos y canlynol:

- O'r rheini sy'n ailddefnyddio bag plastig trwchus i siopa, mae 32 y cant yn dweud eu bod yn eu defnyddio ar gyfartaledd mwy na 50 o weithiau.
- Mae 33 y cant o oedolion wedi trwsio dillad yn y flwyddyn ddiwethaf, a fyddai fel arall wedi cael eu taflu neu'n eistedd yn y cwpwrdd. Mae'r ffigur hwn yn debyg i'r un ar gyfer 2014-15, pan gafodd y data eu casglu ddiwethaf.



Mae 74 y cant o oedolion yn defnyddio'u bagiau eu hunain ar gyfer siopa bwyd, a hynny pob tro neu'r rhan fwyaf o'r amser.

- Bu gostyngiad bach yn y gyfradd ailgylchu yn 2017-18, a hynny am y tro cyntaf. Y rheswm, yn rhannol, yw gwelliant yn ansawdd yr adroddiadau data. Cafodd 62.7 y cant o wastraff trefol ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2017-18.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Mae nifer y dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern sy'n cael eu hatgyfeirio yng Nghymru wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae NDCau'r Cenhedloedd Unedig yn cynnwys targed "Rhoi terfyn ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl". Caethwasiaeth fodern yw'r term a ddefnyddir yn y DU a chaiff ei ddiffinio o fewn Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r Ddeddf yn categorio troseddau Caethwasiaeth, Gwasanaethfaint a Llafur dan Orfod neu Orfodol a Masnachu Pobl.

- Yn ôl yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA), mae nifer y dioddefwyr posibl caethwasiaeth sy'n cael eu cofnodi drwy'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, gyda mwy o oroeswyr yn cael eu hatgyfeirio o'r Deyrnas Unedig a Chymru. Mae'r NCA yn barnu bod graddfa Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl yn y Deyrnas Unedig yn debygol o fod yn cynyddu'n raddol, ond ni all ddatgysylltu'r cynnydd yn y gyfradd achosion oddi wrth well adrodd. Felly nid ydynt yn gallu meintoli twf cyffredinol caethwasiaeth fodern.
- Yn 2018, cafodd 251 o ddioddefwyr posibl caethwasiaeth eu hatgyfeirio, a chafodd yr atgyfeiriad ei anfon at yr heddlu ar ôl hynny ar gyfer ystyriaethau cofnodi troseddau yng Nghymru. Mae hyn yn gynydd o 30 y cant o'r flwyddyn flaenorol, ac mae hefyd yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol (ond mae rhywfaint o'r cynnydd yn y blynyddoedd diweddaraf yn debyg o fod oherwydd newidiadau mewn sut cofnodwyd y data). Mae'n cynrychioli 3.6 y cant o holl atgyfeiriadau'r Deyrnas Unedig.
- Roedd 94 o'r atgyfeiriadau yn fenywod (37 y cant) a 157 yn wrywod (63 y cant). Cafodd 126 (50 y cant) o unigolion eu hatgyfeirio o dan gategorïau camfanteisio ar oedolion a 125 (50 y cant) o dan gategorïau camfanteisio ar blentyn o dan oed.



Yn 2018, cafodd 251 o ddioddefwyr posibl caethwasiaeth eu hatgyfeirio, a chafodd yr atgyfeiriad ei anfon at yr heddlu ar ôl hynny ar gyfer ystyriaethau cofnodi troseddau yng Nghymru.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael ei nodi fwyfwy yng Nghymru, er nad yw o bosibl wedi digwydd yn ddiweddar nac yng Nghymru.

Mae gan Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 'Cydraddoldeb y Rhywiau' darged i gael gwared ar arferion niweidiol megis priodasau plant, priodasau cynnar a gorfodol ac anffurfio organau cenhedlu benywod.

- Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (sy'n cael ei alw'n enwaedu benywod weithiau) yn cyfeirio at weithdrefnau sy'n fwriadol yn newid neu'n achosi niwed i organau cenhedlu benywod am resymau anfeddygol. Mae'r arferiad yn anghyfreithlon yn y DU o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 a'r Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 ac mae'n orfodol i staff y GIG hysbysu'r heddlu o bob achos mewn plant (o dan 18). Mae'n bwysig nodi, os gwelir bod claf sy'n derbyn gofal gan y GIG wedi dioddef anffurfio'r organau cenhedlu, nad yw hyn yn golygu ei bod wedi dioddef hyn yn ddiweddar na bod y drosedd wedi ei chyflawni yn y DU.
- Yn 2018-19 roedd cyfanswm o 235 o achosion o fenywod a merched wedi'u nodi a'u cofnodi fel achosion o anffurfio'r organau cenhedlu. Mae hwn yn ostyngiad o'i gymharu â 271 yn y flwyddyn flaenorol, ond yn gynydd o'i gymharu â 2016-17. Nid yw'r rheswm dros y gostyngiad yn y flwyddyn ddiweddaraf yn hysbys.



Yn 2018-19 roedd cyfanswm o 235 o achosion o fenywod a merched wedi'u nodi a'u cofnodi fel achosion o anffurfio'r organau cenhedlu.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang




Mae pobl ifanc yng Nghymru yn dysgu am faterion byd-eang ond mae gostyngiad wedi bod yn y blynyddoedd diweddar yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 'Addysg o Ansawdd' yn cydnabod mor bwysig yw hi bod pob dysgwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i hybu datblygu cynaliadwy gan gynnwys ffordd gynaliadwy o fyw, hawliau dynol, cydraddoldeb rhywiol a dinasyddiaeth fyd-eang.

- Mae Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn cynnwys elfen orfodol, sef Dinasyddiaeth Fyd-eang, lle bydd myfyrwyr yn dysgu am faterion byd-eang.
- Yn 2017/18, roedd 28,000 o ymgeiswyr ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghyfnod Allweddol 4 a thros 14,000 ar lefel Safon Uwch. Llwyddodd bron hanner y dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 i ennill teilyngdod neu ragoriaeth yn yr elfen hon, a llwyddodd bron chwarter yr ymgeiswyr Safon Uwch i ennill rhagoriaeth.
- Mae nifer fawr o fyfyrwyr o amrywiaeth o wledydd mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Yn 2017/18, roedd 21,350 o fyfyrwyr rhyngwladol o dros 160 o wledydd, yn cynnwys 17.6 y cant o gyfanswm y boblogaeth o fyfyrwyr. Mae hyn yn debyg i'r ffigurau ar gyfer y llynedd, ond rywfaint yn is na'r blynyddoedd diwethaf. Yn 2010/11, roedd 26,290 o fyfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru, oedd yn cyfrif am 20.1 y cant o'r boblogaeth o fyfyrwyr.

7.2 Canran y boblogaeth myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n fyfyrwyr rhyngwladol



Ffynhonnell: yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Mae rhai oedolion yng Nghymru yn wynebu tlodi bwyd ac yn bryderus ynghylch medru fforddio bwyd.

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 'Dim Newyn' yn anelu at ddod â newyn i ben a sicrhau diogelwch bwyd a gwella maeth.

- Mae rhai pobl yng Nghymru yn datgan eu bod yn dioddef tlodi bwyd. Nodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 bod 3 y cant o aelwydydd wedi derbyn bwyd o fanc bwyd yn y 12 mis diwethaf. Yn 2016-17, roedd hwn yn 1 y cant. Fodd bynnag, ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol yn sgil newid yn y ffordd y gofynnwyd y cwestiwn yn 2018-19.
- Nodwyd yn yr arolwg hefyd bod 9 y cant o oedolion yn datgan bod o leiaf un diwrnod yn y bythefnos ddiwethaf ble y bu'n rhaid iddynt fynd heb bryd digonol oherwydd diffyg arian. Yn 2017-18, roedd y ffigur cyfatebol yn 4 y cant. Fodd bynnag, ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol yn sgil newid yn y ffordd y gofynnwyd y cwestiwn yn 2018-19.



Nodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 bod 3 y cant o aelwydydd wedi derbyn bwyd o fanc bwyd yn y 12 mis diwethaf.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang




Mae nifer y ceiswyr lloches sy'n derbyn cymorth wedi aros yn sefydlog yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond mae wedi cynyddu ers dechrau'r degawd.

Nod 16 Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yw “hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygiad cynaliadwy, sicrhau cyfiawnder i bawb a chreu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysfawr ar bob lefel”.

- Ar ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd bron i 3,000 o geiswyr lloches yn derbyn cymorth yng Nghymru, er y bu cwymp bach ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu ar y cyfan ers y pwynt isel yn ystod yr un chwarter yn 2012, ac maent yn debyg i lefelau'r pwynt uchel blaenorol yn 2007.
- Ar ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd cyfanswm o 1,072 o ffoaduriaid wedi cael eu hadsefydlu yng Nghymru o dan y Cynllun Adsefydlu Personau Bregus.
- Nid oes ffigurau cyflawn ar gyfer nifer y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid sy'n cael eu hadsefydlu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ffigurau sy'n gysylltiedig â nifer y ffoaduriaid sy'n cael eu hadsefydlu o dan y Cynllun Adsefydlu Personau Bregus, a nifer y ceiswyr lloches sy'n derbyn cymorth, yn cael eu cyhoeddi.

7.3 Nifer y ceiswyr lloches oedd yn cael cymorth Adran 95, y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2004 i 2019



Ffynhonnell: Ystadegau Mewnffudo'r Swyddfa Gartref, y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2019, tabl as 16g

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang




Mae nifer y plant ifanc sy'n cael eu brechu yn parhau yn uchel, ond mae wedi gostwng ers y lefelau uchaf.

Mae nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 'Iechyd a Llesiant' yn datgan pwysigrwydd cynnig meddyginiaethau a brechlynnau fforddiadwy a hanfodol. Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd weledigaeth i gael byd heb y frech goch, rwbel a syndrom rwbel cynhenid).

- Yn 2018-19, nifer y babanod a gafodd eu brechu yn parhau'n uchel, ond nid oedd mor uchel â'r blynyddoedd blaenorol pan oedd y niferoedd ar eu huchaf. Roedd nifer y plant a gafodd cael y brechlynnau '6 mewn 1' a'r niwmococol cyfun yn parhau i fod yn uwch na 95 y cant mewn plant blwydd oed.
- Roedd y nifer a gafodd y brechiad MMR ychydig o dan 95 y cant ar gyfer y dos cyntaf yn ddwyflwydd oed. Nid yw hyn yn ddigon da i atal achosion o'r frech goch.
- O ganlyniad i weithdrefnau diweddar a gyflwynwyd i sicrhau bod y data a gedwir am frechlynnau yn fwy cywir, mae cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n cael eu brechu yn 4 blwydd oed neu'n hŷn.

7.4 Canran y plant a gafodd eu himiwneddio yng Nghymru, 2008-09 i 2018-19



* Nid yw'r echelin yn dechrau ar sero

(a) Mae MMR yn amddiffyn yn erbyn y frech goch, clwy'r pennau a rwbel

(b) Diphtheria, tetanus, pertwsis (y pas), polio a Hib. Defnyddir cyfraddau pertwsis fel procsi. Yn 2018-19, rhoddir data ar gyfer y brechlyn '6 mewn 1' (y brechlyn '5 mewn un' gynt). Cyflwynwyd hwn ar gyfer babanod a anwyd ar 1 Awst 2017 ac wedi hynny. Byddai cyfran fach o'r plant blwydd oed yn y cohort hwn wedi cael y brechlyn '5 mewn 1' DTaP/IPV/Hib

Ffynhonnell: StatsCymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang




Mae tri safle treftadaeth y byd o werth eithriadol yng Nghymru

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 'Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy' yn nodi pwysigrwydd gwarchod a diogelu treftadaeth naturiol y byd

Mae tri safle treftadaeth y byd yng Nghymru:

- Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Nghaernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech
- Tirlun Diwydiannol Blaenafon
- Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte



Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Darllen pellach:

Darllen pellach:

Caiff rhai pynciau sydd wedi'u cynnwys o fewn nod Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang hefyd eu cynnwys yn y nod Cymru Gydnerth. Felly, dylech gyfeirio at y naratif am Gymru Gydnerth i gael darlun llawnach.

Roedd adroddiad llawn [Llesiant Cymru 2018](#), yn cynnwys data pellach o'r canlynol:

- Ynni adnewyddadwy
- Crynodiad pridd
- Gwastraff bwyd o gartrefi
- Safleoedd treftadaeth a'r Gymraeg
- Eco-ysgolion a Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru
- Cymryd rhan yn rhaglen Cymru o Blaid Affrica

Dolenni defnyddiol i gael rhagor o wybodaeth:

[Adroddiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU](#) o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy - dyma Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol cyntaf y DU yn pwysu a mesur y cynnydd tuag at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.–

[Adolygiad cenedlaethol gwirfoddol y DU – Adroddiad atodol Cymru 2019](#). Adroddiad Atodol i Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y Deyrnas Unedig.

[Data'r DU ar gyfer dangosyddion y Nodau Datblygu Cynaliadwy](#)

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Ffynonellau'r data

Defnyddiwyd y ffynonellau data canlynol yn y naratif hwn:

Y newid yn yr hinsawdd, y defnydd o fagiau plastig, tlodi bwyd:

[Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Dangosydd Canlyniadau](#)

Allryiadau nwyon tŷ gwydr: [y Rhestr Allryiadau Atmosfferig Genedlaethol](#)

Ôl troed ecolegol: [Olion Troed Ecolegol Cymru –diweddariad hyd at 2011](#)

Caethwasiaeth Fodern: [yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol: Ystadegau'r Fecanwaith Atgyfeirio Genedlaethol – crynodeb diwedd blwyddyn 2018](#)

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM): Darperir data gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar gais

[Bagloriaeth Cymru](#) – Darperir data gan CBAC ar gais

Myfyrwyr addysg uwch o dramor: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Ceiswyr lloches:

[Ystadegau mewnfudo – y flwyddyn sy'n dod i ben fis Mawrth 2019](#), tabl as 16 q,

Ffoaduriaid y Swyddfa Gartref

[Ffoaduriaid: Ystadegau mewnfudo, y flwyddyn sy'n dod i ben fis Mawrth 2019](#) – tabl as 20 q, y Swyddfa Gartref:

Imiwneiddio: Nifer y Plant sy'n cael eu brechu yng Nghymru

[Adroddiad Blynyddol COVER 2019, lechyd Cyhoeddus Cymru a StatsCymru](#)

Safleoedd treftadaeth y byd: [Cadw](#)

Y Cefndir



Beth yw'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant. Mae'n adroddiad statudol sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n adroddiad sy'n edrych ar gynnydd Cymru gyfan fel gwlad. Nid yw'n adroddiad am berfformiad sefydliad unigol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2017.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Y bwriad yw gwneud i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy ynghylch y tymor hir, gan weithio'n well gyda phobl a chymunedau, a gyda'i gilydd, mynd ati i atal problemau, a gweithredu mewn ffordd fwy cyson. Bwriad hyn yn ei dro yn gwneud Cymru yn wlad yr ydym i gyd yn awyddus i fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod saith nod llesiant ar gyfer Cymru fwy llewyrchus, iach, cydnerth, cyfartal a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Ceir rhagor o wybodaeth gefndir am y Ddeddf yn [yr Hanfodion](#).

Beth yw dangosyddion cenedlaethol Cymru?

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod dangosyddion cenedlaethol i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Rhwng mis Medi 2015 a mis Ionawr 2016 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus eang i nodi pa gyfres fach o ddangosyddion y dylid eu datblygu i fesur cynnydd yn erbyn y nodau llesiant. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu cyhoeddi fis Mawrth 2016 a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Lluniwyd y dangosyddion cenedlaethol i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos y cynnydd tuag at y 7 nod llesiant. Nid oes bwriad iddynt fod yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol.

Ceir disgrifiad llawn o'r dangosyddion cenedlaethol gan gynnwys eu diffiniad technegol a gwybodaeth am ffynonellau data ac amllder yn y dogfen dechnegol.

Beth yw'r berthynas â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig?

Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 yn gynllun gwaith trawsnewidiol wedi'i seilio ar 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig – i roi sylw i heriau argyfyngus byd-eang dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r 17 o nodau byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn golygu y bydd yn rhaid i bob gwlad ar y blaned weithredu i drechu tlodi, hyrwyddo llewyrch a llesiant i bawb, diogelu'r amgylchedd a rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd. Bwriedir i'r nodau hyn fod yn rhai pellgyrhaeddol, sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n berthnasol i bawb ac yn drawsnewidiol. Mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig wedi ymrwymo i weithio'n ddiflino i'w rhoi ar waith erbyn 2030, ac fe fydd Cymru'n chwarae ei rhan.

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddwyd Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol cyntaf y DU, yn pwysu a mesur y cynnydd tuag at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Er mwyn ategu hyn, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a rhanddeiliaid eraill i baratoi 'Adroddiad Atodol Cymru' i ddarparu cynnwys ychwanegol ategol wedi'i gydgrynhoi ar y dulliau gweithredu gwahanol y mae Cymru wedi'u defnyddio mewn perthynas â datblygu cynaliadwy.

Bydd nifer o ddangosyddion cenedlaethol yn helpu i adrodd hanes cynnydd yng Nghymru yn erbyn un o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydym wedi mapio'r dangosyddion yn erbyn y nodau.

Dan y bennod ar gyfrifoldeb byd-eang rydym wedi amlygu rhai o'r dangosyddion a'r cyd-destun sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig o safbwynt cyfraniad Cymru.

Cerrig milltir cenedlaethol?

Yn ogystal â gosod Dangosyddion Cenedlaethol, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod Cerrig Milltir Cenedlaethol i helpu i fesur a yw cynnydd yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip datganiad ysgrifenedig ar gynigion ar gyfer datblygu cyfres o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru. Mae gwaith pellach nawr ar y gweill gyda phartneriaid allweddol i fynd a'r cynigion yma yn eu blaen.

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sut-fedrwn-ni-helpu-gweinidogion-cymru-i-fesur-cynnydd-y-genedl-cynigion-ar>

Pwy gynhyrchodd yr adroddiad hwn?

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. Cafodd ei gynhyrchu yn unol â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#), felly mae'n annibynnol ar unrhyw ddylanwad gwleidyddol.

Amseroldeb

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Medi er mwyn sicrhau ei fod mor agos â phosib at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, ond ar ôl cyhoeddi Arolwg Cenedlaethol Cymru, sef ffynhonnell 14 o'r dangosyddion cenedlaethol.

Bydd data'r dangosyddion cenedlaethol yn cael eu cadw mor gyfredol â phosib wrth i setiau data newydd gael eu cyhoeddi ar gyfer y dangosyddion hynny. Ym mis Medi bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi diweddariad o adroddiad blynyddol Llesiant Cymru gan gynnwys diweddariad i'r naratif ar gyfer pob nod.

Cwmpas

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar Gymru. Ar gyfer rhai dangosyddion, cyfeirir at y sefyllfa o gymharu â'r DU. Mae'r naratif yn erbyn y nodau ac ar gyfer pob un o'r dangosyddion wedi'u seilio ar gynnydd cenedlaethol yn erbyn y nodau, ac nid yw'n ceisio darparu adroddiad ar gynnydd ar lefelau daearyddol gwahanol. Fodd bynnag, mae data sawl un o'r dangosyddion ar gael ar StatsCymru, neu ar gais, ar lefelau daearyddol manylach.

Hygyrchedd

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn yn bennaf fel adroddiad rhyngweithiol ar-lein er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith ac effeithlonrwydd defnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru. Cynhyrchwyd fersiwn flynyddol o'r adroddiad hefyd yn cynnwys y saith adroddiad cynnydd yn erbyn y nodau fel PDF i'w argraffu.

Mae'r rhan fwyaf o'r data sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys y manylion, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru.

A yw'r holl ddata'n Ystadegau Swyddogol?

Mae mwyafrif y dangosyddion (32) wedi'u seilio ar ffynonellau a gyhoeddwyd fel Ystadegau Gwladol. Hynny yw, maent wedi'u cyhoeddi gan ystadegwyr y Llywodraeth, neu gyrff cyhoeddus eraill, dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae 24 o'r dangosyddion hyn wedi'u seilio ar ffynonellau a gyhoeddwyd fel Ystadegau Gwladol. Hynny yw mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi pennu'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, gan ddangos cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Golyga

hyn eu bod yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Mae'r 12 o ddangosyddion wedi'u seilio ar ffynonellau eraill, fel data gweinyddol a gedwir gan adrannau'r llywodraeth. Nid oes data ar gyfer 2 o'r dangosyddion.

Er nad yw'r holl ffynonellau data a ddefnyddir yn ystadegau swyddogol, mae'r adroddiad ei hun wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Cyn cyhoeddi adroddiad 2020 byddwn yn ceisio cael dynodiad Ystadegau Gwladol drwy asesiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Roeddem wedi ceisio cael dynodiad cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, cafodd yr asesiad ei oedi yn sgil newid yn fformat yr adroddiad eleni.

Ni chafodd rhai o'r data a gafodd eu cynnwys yn adroddiad y nod "bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang" eu casglu o ffynonellau ystadegau swyddogol, ac er eu bod yn cael eu hadrodd yma i roi cyd-destun, nid oes modd i ni ddarparu sicrwydd am ansawdd y data. Mae'r Adroddiad ansawdd ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol yn rhoi rhagor o wybodaeth, lle bo ar gael, am y data a ddefnyddiwyd fel gwybodaeth gyd-destunol yn naratif y nodau.

Beth arall ddylwn i ei wybod am y data?

Mae'r Adroddiad Ansawdd ar gyfer dangosyddion cenedlaethol, ochr yn ochr â'r datganiad hwn yn darparu dolenni at wybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddir i fesur dangosyddion cenedlaethol, neu'n rhoi'r wybodaeth honno os nad yw ar gael rywle arall.

Pwy yw defnyddwyr yr adroddiad hwn?

Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru; Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad a phwyllgorau); y cyfryngau; a'r cyhoedd yn gyffredinol i (i) helpu i ddeall Llesiant Cymru (ii) y cynnydd yn erbyn y 7 nod llesiant a (iii) lle mae Cymru'n gwneud cynnydd yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (er enghraifft, cafodd ei ddefnyddio fel rhan o broses yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol).

Pan fydd y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir wedi'u cyhoeddi, gallant helpu cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i gyfraith cenedlaethau'r sy'n ddarostyngedig i gyfraith cenedlaethau'r dyfodol ddeall yn well natur y newid disgwylidiedig

wrth gyflawni'r nodau llesiant. Dylid ystyried y dangosyddion cenedlaethol fel tystiolaeth dyfodol ddeall yn well natur y newid disgwylid wrth gyflawni'r nodau llesiant. Dylid ystyried y dangosyddion cenedlaethol fel tystiolaeth ddefnyddiol i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall pa brif feysydd sydd angen gweld cynnydd mewn perthynas â'r nodau llesiant.

Bydd swyddogaeth benodol gan y dangosyddion cenedlaethol hefyd gan y bydd yn rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus Cymru gyfeirio atynt wrth ddadansoddi cyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Dylai'r adroddiad hefyd gael ei ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus er mwyn datblygu ac adolygu asesiadau llesiant ac i osod ac adolygu amcanion llesiant gofynnol dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Rhaid i'n hadroddiad llesiant blynyddol hefyd gael ei ystyried gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wrth baratoi a chyhoeddi 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol'.

Cyd-destun y DU

Ar gyfer y DU yn gyfan, mae gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol Raglen Llesiant Genedlaethol. Mae'r dangosfwrdd llesiant Measures of National Well-being Dashboard.

Yn yr Alban, mae Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol yn gosod gweledigaeth ar gyfer llesiant cenedlaethol ac yn mesur yr hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â hyn. Lansiwyd y Fframwaith newydd ym mis Mehefin 2018 yn dilyn proses adolygu eang ac agored, ac mae ganddo sail statudol (Deddf Ymrymuso'r Gymuned (yr Alban) 2015).

Mae'r Fframwaith diwygiedig yn amlinellu ei un ar ddeg o Ganlyniadau Cenedlaethol yn ôl yr un deg saith o Nodau Datblygu Cynaliadwy ac mae'n rhan bwysig o waith yr Alban o sicrhau bod gan agenda'r Nodau Datblygu Cynaliadwy naws fwy lleol. Adroddir ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r weledigaeth yn y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol mewn ffordd agored a thryloyw ar wefan y Fframwaith drwy 81 o ddangosyddion cenedlaethol yn cwmpasu ystod eang o fesurau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Yn ogystal â dangos y perfformiad ar lefel genedlaethol, mae'n bosibl i ystod o is-grwpiau demograffig a daearyddol edrych ar y data i weld a yw canlyniadau'n cael eu gwireddu mewn gwahanol rannau o gymdeithas yn yr Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, y prif system ar gyfer asesu llesiant cymdeithasol yw fframwaith llesiant o 12 canlyniad a ddatblygwyd gan y Weinyddiaeth flaenorol, a fu'n destun ymgynghoriad ac a fireiniwyd yn ystod 2016-2017. Mae'r fframwaith hwn, sy'n cynnwys 49 o ddangosyddion poblogaeth ategol, yn cynnwys Cynllun Cyflawni Canlyniadau Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ac adroddir ar y cynnydd o ran y canlyniadau a'r dangosyddion ar hyn o bryd drwy Ddangosydd Canlyniadau.

Mae Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd rhan yn y rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol dan arweiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac yn cyhoeddi dadansoddiad llesiant ar sail mesurau llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol pan fo data ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Dolenni perthnasol eraill

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

[Tueddiadau'r Dyfodol](#)

[Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)

Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU

Adolygiad cenedlaethol gwirfoddol y DU

Adolygiad cenedlaethol gwirfoddol y DU: Adroddiad atodol Cymru 2019

Llesiant Cymru

Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Y saith nod llesiant ar gyfer Cymru

Cymru lewyrchus (1)	Cymru gydnerth (2)	Cymru iachach (3)	Cymru sy'n fwy gyfartal (4)	Cymru o gymunedau cydlynus (5)	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7)
---------------------------	--------------------------	-------------------------	-----------------------------------	---	--	--

A ffordd rydym yn mesur cynnydd

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru		1	2	3	4	5	6	7
01	Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g							
02	Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus							
03	Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw							
04	Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer							
05	Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw							
06	Mesur o ddatblygiad plant bach							
07	Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2" gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim							
08	Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol							
09	Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU)							
10	Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen							
11	Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi							
12	Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod							
13	Crynnodiad carbon a deunydd organig mewn pridd							
14	Ôl Troed Ecolegol Cymru							
15	Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen							

16	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU							
17	Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau							
18	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn							
19	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol							
20	Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith							
21	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith							
22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran							
23	Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol							
24	Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt							
25	Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio							
26	Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw							
27	Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch							
28	Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli							
29	Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl							
30	Y ganran o'r bobl sy'n unig							
31	Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon							
32	Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr							
33	Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol							
34	Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd							
35	Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn							
36	Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg							
37	Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg							
38	Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos							

39	Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU								
40	Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well								
41	Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru								
42	Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru								
43	Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru								
44	Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru								
45	Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan								
46	Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig								

Gwybodaeth Bellach

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Os ydym am gyflawni'r nodau lles hyn ar y cyd, mae angen ffordd o fesur cynnydd er mwyn i ni gyd allu gweld a ydy pethau'n gwella ar gyfer Cymru gyfan. Dyna pam y mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol. Er bod y dangosyddion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, maent yn adlewyrchu Cymru gyfan ac yn ein galluogi i ddeall cyfraniad pawb.

Dylid darllen y ddogfen wybodaeth dechnegol ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol (Sut mae mesur cynnydd cenedl – Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Dogfen Dechnegol, Mawrth 2016) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r 46 dangosydd cenedlaethol a gyhoeddwyd ac a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2015.

Bydd sawl dangosydd cenedlaethol yn helpu i adrodd stori am gynnydd yn erbyn mwy nag un o'r nodau llesiant, ac i helpu chi fynd i'r afael â'r cysylltiadau hyn rydym wedi tynnu sylw at set bosibl o gysylltiadau rhwng dangosyddion cenedlaethol a nodau llesiant, at ddibenion cyfathrebu. Mae'r tabl hwn wedi ei baratoi at ddibenion cyfathrebu a thrafod yn unig, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod cyswllt technegol neu gyfreithiol uniongyrchol nac anuniongyrchol rhwng y dangosyddion a'r nodau llesiant.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-yr-hanfodion
Animeiddiad	https://www.youtube.com/watch?v=rFeOYIxJbmw&feature=player_embedded
Dangosyddion Cenedlaethol Cymru	https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	www.cenedlaethaurdyfodol.cymru/

Agenda 2030

Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

1
DIM
TLLOF

2
DIM
NEWYN

3
HECHID
ALLESANT
DA

4
ADWYD
O ANSWDD

5
CYRADDOLIED
RHYWOL

6
DWR
GLÂN
A
GLANWETHIDDA

7
YNNI
FERDDODU
DWR
A
GLÂN

8
GWARTH
BOCH
AOL
A
TIMP
ECONOMADDU

9
DIMODIAN
T
ARLOESIA
SEI
LWATH

10
LLAI
O
ANGHYRADDOLIED

11
DINASIEDO
A
CYMUNE
DAU
CYMALIA
DWY

12
DERYDDO
A
CYMHWYCHU
Y
GYRFEOL

13
GWETHREDU
AR
Y
NEWID
Y
HIN
SANDOD

14
BYWID
O
DAN
Y
DWR

15
BYWID
AR
Y
TIR

16
HEIDWICHL
CYFLANNWCH
A
SEFYDLIA
DAL
CALARN

17
GWETHRO
MEWN
PARTNEDDIAETH
CYFLANNWCH
NODAU

Cymru																		
Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru		1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17
1	Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g																	
2	Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus																	
3	Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw																	
4	Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer																	
5	Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw																	
6	Mesur o ddatblygiad plant bach																	

Atodiad B

7	Sgôr pwyntiau 9 cyfartalog wedi'i gapio y disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai sydd a dim hawl
8	Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
9	Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU)
10	Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen
11	Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi
12	Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod
13	Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd
14	Ôl Troed Ecolegol Cymru
15	Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen
16	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar contractau parhaol (neu ar contractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU
17	Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiâu
18	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn
19	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol
20	Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith
21	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith
22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran

122

